# Pam ydyn ni'n aros o hyd?

## Oedi yn y maes gofal cymdeithasol yng Nghymru

**Medi 2024**



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Crynodeb gweithredol** | 3 |
| **1. Cyflwyniad** | 5 |
| **2. Pwrpas yr ymchwil** | 6 |
| **3. Dull** | 7 |
| **4. Canfyddiadau** | 8 |
| Casglu data | 8 |
| Barn ac adborth pobl hŷn | 9 |
| Ofalwyr di-dâl | 10 |
| Oedi wrth i bobl aros am asesiadau | 11 |
| Oedi wrth i bobl aros am becynnau gofal | 13 |
| Mesurau gwella awdurdodau lleol | 16 |
| Cyfathrebu | 16 |
| **5. Mynd i'r afael â'r problemau** | 18 |
| Cynyddu gwytnwch cymunedol– micro-fentrau, gofal lefel isel a gwasanaethau ar ffiniau gofal | 18 |
| Sut mae awdurdodau lleol yn lleihau rhestrau aros | 19 |
| Cefnogaeth i ofalwyr di-dâl | 20 |
| Taliadau uniongyrchol | 21 |
| Canolfannau dydd yn newid | 23 |
| Rhyddhau o'r Ysbyty | 23 |
| Trefniadau codi tâl ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol | 25 |
| Cyfathrebu am godi tâl | 27 |
| **6. Prif alwadau gan arweinwyr Gofal Cymdeithasol** | 29 |
| **7. Casgliadau** | 30 |
| **8. Argymhellion** | 31 |
| **Cyfeirnodau** | 34 |
| **Atodiad - Canllawiau codi tâl gofal cymdeithasol** | 35 |



## Cydnabyddiaethau

Hoffai Age Cymru ddiolch i'r holl bobl wnaeth siarad â ni am eu profiadau o gael mynediad at ofal cymdeithasol. Rydym yn ddiolchgar i'r 11 arweinydd gofal cymdeithasol, swyddogion comisiynu awdurdodau lleol ac arweinwyr timau cymunedol wnaeth siarad â ni am yr hyn sy'n digwydd yn eu hardaloedd.

# Crynodeb Gweithredol

## Yr ymchwil

Dyma drydydd adroddiad blynyddol Age Cymru sy'n edrych ar gyfnodau o oedi wrth i bobl dros 55 oed yng Nghymru geisio cael mynediad at ofal cymdeithasol. Rydym yn parhau i glywed gan bobl hŷn sy'n wynebu cyfnodau hir o aros wrth geisio trefnu asesiadau gofal cymdeithasol, a chyfnodau o aros cyn bod pecyn gofal ar waith.

Rydym yn clywed gan fwy o bobl hŷn sydd wedi cael trafferth ers yr argyfwng costau byw, ond dydyn nhw ddim yn gymwys ar gyfer cymorth ariannol, a phobl sy'n ei chael hi'n anodd deall trefniadau codi tâl ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol.

## Casgliadau

1. 1Mae'r cynnydd yn y galw am ofal cymdeithasol yn dilyn y pandemig rhwng 2021 a 2022 wedi lleihau. Mae'n ymddangos bod ymdrechion yr awdurdodau lleol yn lleihau amseroedd aros. Fodd bynnag, mae nifer o bobl yn gorfod aros am gyfnodau hir cyn cael mynediad at ofal cymdeithasol.
2. Mae ymdrechion ar waith i adfer gofal cymdeithasol ac mae'r gwaith yn parhau, ond mae cymhlethdod cynyddol, y galw a'r amcanestyniadau am boblogaeth y dyfodol yn golygu bod angen mwy o newidiadau yn gyflym.
3. Mae angen gwella'r ffordd mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn cyfathrebu gyda phobl hŷn a'u teuluoedd ar y pwynt cyswllt cyntaf, ac wrth iddynt aros am asesiadau neu becynnau gofal.
4. Mae angen i'r broses o wella'r gefnogaeth i ofalwyr di-dâl ddigwydd yn gyflymach.
5. Nid yw systemau casglu data yn gallu arddangos y cyfnodau o aros yn effeithiol o hyd.
6. Mae trefniadau cyllido tymor byr yn golygu bod gwasanaethau gofal a gwasanaethau cymorth lefel is yn parhau i fod mewn perygl.
7. Mae cyngor gwael ynghylch codi tâl gan rai gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, a chymhlethdodau'r trefniadau codi tâl yn golygu y gallai rhai pobl hŷn fod yn talu mwy na'r swm a ganiateir drwy godi tâl tecach, gan roi pwysau gormodol ar gyllid.
8. Mae cyfathrebu gwael ynghylch rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn golygu bod pobl hŷn yn aros yn yr ysbyty yn hirach nag sydd raid.
9. Mae awdurdodau lleol yn darparu cefnogaeth fewnol gynyddol ar gyfer taliadau uniongyrchol a allai ganiat5u cynnydd yn nifer y bobl hŷn sy'n gweld taliadau uniongyrchol fel opsiwn mwy deniadol.

## *Argymhellion*

### Argymhelliad 1:

Mae angen i Lywodraeth Cymru, ADSS Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru ac awdurdodau lleol gydweithio i sicrhau bod mecanweithiau adrodd yn gallu dangos lle mae canlyniadau cadarnhaol yn hytrach na chofnodi allbynnau.

### Argymhelliad 2:

Dylai awdurdodau lleol asesu a yw eu prosesau presennol ar gyfer darparu cyngor a gwybodaeth gychwynnol a mynediad parhaus at gyngor a gwybodaeth yn diwallu anghenion pobl hŷn. Mae angen canolbwyntio ar sut mae gwybodaeth am godi tâl tecach yn cael ei chyfathrebu, a pha mor dda yw'r broses o gyfathrebu gwybodaeth.

### Argymhelliad 3:

Dylai awdurdodau lleol roi ffocws ychwanegol ar yr unigolion hynny sydd, ar hyn o bryd, yn aros mwy na 30 diwrnod cyn cael asesiad anghenion gofal neu cyn bod pecyn gofal ar waith.

### Argymhelliad 4:

Dylai awdurdodau lleol ddarparu cymorth rhagweithiol i'r rhai sy'n aros mwy na 30 diwrnod.

### Argymhelliad 5:

Mae angen i fyrddau partneriaeth rhanbarthol, awdurdodau lleol a gwasanaethau'r trydydd sector weithio gyda'i gilydd i wella'r cymorth ymyrryd ac atal cynharach sydd ar gael i bobl hŷn.

### Argymhelliad 6:

Dylai Llywodraeth Cymru, byrddau partneriaeth rhanbarthol, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol sicrhau bod cyllid y trydydd sector yn cael ei ddarparu mewn modd cynaliadwy.

### Argymhelliad 7:

Mae angen rhoi pwyslais ar ddysgu a rhannu arfer da ymhlith awdurdodau lleol. Bydd hyn yn lleihau llwyth gwaith awdurdodau lleol a'u helpu i osgoi heriau y mae awdurdodau lleol eraill wedi'u hwynebu.

### Argymhelliad 8:

Dylai Llywodraeth Cymru, byrddau partneriaeth rhanbarthol ac awdurdodau lleol sicrhau bod gofynion y Siarter ar gyfer Gofalwyr Di-dâl yn cael eu bodloni.

# 1. Cyflwyniad

Dyma ein trydydd adroddiad blynyddol sy'n edrych ar oedi wrth i bobl dros 55 oed yng Nghymru aros am fynediad at ofal cymdeithasol.  Rydyn ni wedi cyhoeddi'r adroddiad yn flynyddol ers i ni glywed am bryderon wrth bobl a oedd yn aros am ofal cymdeithasol.

Yn 2035, mae'n debyg:

- bydd nifer y bobl dros 65 oed sy'n methu ymdopi ag o leiaf un gweithgaredd hunanofal yn cynyddu 46% - o bosib bydd 120,000 o bobl eraill angen gofal a chymorth
- Bydd nifer y bobl hŷn sydd â salwch hirdymor yn cynyddu 38%
- Bydd nifer y bobl hŷn sy'n byw gyda dementia yn cynyddu 64%.

Mae hyn i bob pwrpas yn golygu y bydd mwy o bobl angen gofal a chymorth gyda phroblemau iechyd lluosog, a chynnydd sylweddol yn nifer y bobl fydd angen cyngor ar sut i reoli cyflyrau tymor hir.

Y llynedd clywsom fod nifer y bobl hŷn oedd angen gofal gyda chymhlethdodau ychwanegol yn cynyddu a bod awdurdodau lleol yn ceisio gwella arferion gwaith a chlirio llwyth gwaith sydd heb ei gwblhau. Bryd hynny, roedd llawer o'r awdurdodau lleol yn dal i weithio i leihau'r llwyth gwaith wnaeth gronni yn ystod y pandemig. Flwyddyn yn hwyrach, mae mwy o ffocws ar ofynion poblogaeth y dyfodol wrth i fwy o awdurdodau lleol edrych ar yr hyn y gallant ei wneud i newid eu harferion gwaith.

Rydym yn cydnabod yr heriau cynyddol sy'n wynebu awdurdodau lleol wrth ddyrannu adnoddau i ddiwallu anghenion poblogaeth hŷn yn ystod cyfnod lle cafodd llawer o waith cynllunio ei rwystro oherwydd y pandemig. Mae'r rôl y mae gofal cymdeithasol yn ei chwarae pan fydd y gwasanaeth yn gweithio'n effeithiol yn rhan annatod o iechyd a lles pobl hŷn. Pan fydd y gwasanaeth yn gweithio'n effeithiol, mae'n caniatáu i ofalwyr di-dâl gael yr help, y cyngor a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt i ofalu am rywun, gan sicrhau nad yw eu hiechyd a'u lles eu hunain yn cael eu heffeithio'n negyddol. Yn ogystal, mae gwasanaethau gofal cymdeithasol a lles o ansawdd da yn lleihau'r galw ar wasanaethau'r GIG am ofal cleifion mewnol.

# 2. Pwrpas yr ymchwil

Gwyddom os nad yw unigolyn yn cael mynediad at y gofal a'r cymorth cywir, gall hyn arwain at ganlyniadau difrifol a hirdymor sy'n effeithio'n negyddol ar y person sy'n aros am ofal, ei ofalwyr di-dâl, ei deulu a'r rhwydwaith cymorth ehangach. Mae ein gwasanaethau'n parhau i glywed am oedi wrth i bobl aros am asesiad, dryswch ynghylch yr hyn sy'n digwydd wrth iddynt aros, ac oedi cyn bod gofal yn cael ei ddarparu wedi i'r asesiad gael ei gwblhau.

**"Mi wnaeth cyflwr cronig waethygu a chefais niwed wedi i mi gwympo. Rydw i'n gofalu am fy mam sydd â dementia heb unrhyw gefnogaeth wrth y gwasanaethau cymdeithasol, mae ganddyn nhw ormod o lwyth gwaith." Ymateb i arolwg Age Cymru, 'Beth sy'n Bwysig i Chi' 2024.**

Canfu adroddiad yn 2019, er bod gwariant awdurdodau lleol ar wasanaethau cymdeithasol oedolion dros y pum mlynedd diwethaf yng Nghymru wedi aros yn weddol wastad mewn termau real, mae gwariant y pen ar bobl hŷn wedi gostwng 13%. Edrychodd Dadansoddi Cyllidol Cymru ar ddadansoddiad o'r nifer o bobl a oedd yn rhan o'r gweithlu gofal cymdeithasol a chanfod bod llawer mwy o bobl yn gweithio mewn gofal a gomisiynwyd na'r nifer sy'n cael eu cyflogi gan awdurdodau lleol.

Mae gofal o ansawdd da yn dibynnu'n helaeth ar weithlu sefydlog, iach, cefnogol a llawn cymhelliant. Nid yw buddsoddiad ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gofal cymdeithasol ac ymdrechion tuag at gyflawni'r Cyflog Byw Gwirioneddol wedi bod yn ddigonol i sicrhau bod pobl hŷn yn cael y wybodaeth, y cyngor, y cymorth a'r gofal sydd eu hangen arnynt mewn da bryd. Bu rhywfaint o lwyddiant o ran recriwtio mwy o bobl i'r gwasanaeth gofal cymdeithasol ond mae recriwtio, hyfforddi ac uwchsgilio staff yn cymryd amser ac ymdrech.

Gall anghenion pobl hŷn newid wrth iddynt aros am help. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer pobl hŷn sy'n byw gyda chyflyrau iechyd lluosog. I bobl sy'n byw gyda dementia, gall cyfnodau hir o aros am becynnau gofal arwain at ddirywiad cyflymach, yn enwedig ymhlith y rhai sy'n byw ar eu pennau eu hunain a'r bobl sy'n dod allan o'r ysbyty. Mae cyfathrebu gwael wrth i bobl aros yn cyfrannu at ddirywiad mewn lles meddyliol oherwydd bod pobl yn teimlo eu bod yn cael eu hanghofio. Os nad yw pobl yn gwybod beth sy'n digwydd a phryd, mae hyn yn golygu bod eu bywydau ar stop.

Mae'r adroddiad eleni yn cynnwys ffocws newydd ar dalu am ofal. Mae nifer cynyddol o bobl yn cysylltu â Chyngor Age Cymru sy'n becso neu sydd wedi drysu wrth geisio deall y trefniadau ynghylch codi tâl ar gyfer gofal cymdeithasol a gwybodaeth a dderbyniwyd gan y gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae'r galwadau hyn yn aml yn mynd law yn llaw â cheisiadau am help i sicrhau bod pobl yn hawlio'r holl fudd-daliadau gallant dderbyn wrth iddynt wynebu'r argyfwng costau byw.

Yn ein hadroddiadau blaenorol mae rhyddhau cleifion o'r ysbyty wedi cael ei drafod gydag arweinwyr gofal cymdeithasol ond nid yw wedi bod yn bwynt ffocws. Dangosodd arolwg blynyddol diweddaraf Age Cymru bod y bobl sy'n poeni am orfod aros am ofal cymdeithasol yn poeni'n benodol am gael gofal ar ôl gadael yr ysbyty. Roeddem ni eisiau deall yr heriau sy'n rhwystro pobl sydd angen gofal cymdeithasol rhag cael eu rhyddhau o'r ysbyty'n amserol ac yn ddiogel.

# 3. Dull

Gan ddatblygu gwaith y llynedd, roedden ni eisiau deall:

- Ydy'r cynnydd mewn galw am ofal ar bobl hŷn wedi parhau ledled Cymru?
- Ydy cynlluniau'r awdurdodau lleol ar gyfer adfer gofal cymdeithasol yn gwneud gwahaniaeth i bobl hŷn?
- Sut mae trefniadau codi tâl yn cael eu hesbonio a'u trefnu?
- Beth yw'r problemau sy'n wynebu adrannau gofal cymdeithasol wrth drefnu gofal i'r bobl sy'n gadael yr ysbyty?

Eleni eto, gwnaethom gyflwyno'r un cais Rhyddid Gwybodaeth er mwyn i ni fedru cymharu, gan ofyn:

- O ran y bobl sy'n 55 oed neu'n hŷn a gafodd gais cychwynnol am asesiad gofal am y tro cyntaf, pa mor hir y bu pob unigolyn yn aros rhwng cyflwyno'r cais cychwynnol tan fod yr asesiad yn cael ei gynnal.
- O'r unigolion hynny yr aseswyd bod angen pecyn gofal a chymorth arnynt, faint o amser wnaeth basio rhwng cynnal yr asesiad a darparu'r pecyn gofal?

Cysylltom â phob awdurdod lleol i ofyn am gyfarfod gyda'r arweinydd gofal cymdeithasol. O'r 22 awdurdod lleol, gwnaethom gwrdd ag 11 arweinydd gofal cymdeithasol, ac roedd pump ohonynt yn dod o awdurdodau lleol a oedd wedi darparu data Rhyddid Gwybodaeth. Roedd gan ddau awdurdod lleol arall ddiddordeb mewn cyfarfod, ond nid oedden nhw'n medru cwrdd cyn yr ymgyrch eleni.

Hefyd, fe wnaethom gasglu barn gan bobl hŷn a gwybodaeth ychwanegol gan wasanaethau rheng flaen Age Cymru megis Cyngor Age Cymru, ein harolwg cenedlaethol diweddaraf, 'Beth sy'n Bwysig i Chi?', a thrwy ein partneriaid er mwyn deall beth yw'r heriau a beth sy'n gweithio'n dda.

# 4. Canfyddiadau

## *Problemau yn ymwneud a dulliau casglu data*

Roedd yna sefyllfa debyg wrth i ni gasglu data, fel y manylir yn ein hadroddiadau blaenorol. Mae rhai awdurdodau lleol wrthi'n newid eu systemau rheoli achosion a chasglu data, mae eraill yn archwilio opsiynau eraill gan nad yw eu systemau presennol yn gallu dileu'r data a'r wybodaeth benodol sydd eu hangen arnynt. Heb hyn, mae'n anodd iddynt wirio bod y newidiadau y maent yn eu gwneud yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl hŷn. Mewn sgyrsiau gydag arweinwyr gofal cymdeithasol, clywsom fod problemau gyda'u systemau yn golygu nad ydynt yn gallu dileu'r wybodaeth gywir ar gyfer gofynion adrodd statudol ac mae cynlluniau ar waith i archwilio'r broblem.

Dywedodd un awdurdod lleol, ar ôl rhedeg y data gwnaethom ofyn amdano yn ein cais rhyddid gwybodaeth, eu bod wedi gweld anghysonderau yn yr hyn y maent yn ei weld yn ymarferol a'r hyn y mae'r data'n ei ddweud. O ganlyniad, fe wnaethant wirio pob achos lle gwelwyd anghysondebau.

Clywsom am y gwahaniaethau mewn llwybrau gofal rhwng awdurdodau lleol a sut mae hyn yn cael ei gofnodi, sy'n golygu ei bod hi'n annheg cymharu data un awdurdod lleol ag un arall gan nad yw'r data yn unig yn dangos cofnod cywir o daith gofal person hŷn. Dywedodd un sir y gallai eu data edrych fel petai ei fod yn cymryd mwy o amser i'w asesu na siroedd eraill ar bapur oherwydd bod eu dull cofleidiol a'r ffordd maen nhw'n cofnodi yn wahanol i ardaloedd eraill lle mae atgyfeiriad yn cael ei gau a'i ailagor ar wahanol gamau. Dywedon nhw na all eu system rheoli achosion dynnu'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt yn unol â'r strategaethau diweddaraf ac maent yn bwriadu newid hyn, a fydd yn dasg ddwys o ran adnoddau.

Roedd 12 o'r 22 awdurdod lleol yn gallu darparu data sy'n dangos pa mor hir yr oedd pob person dros 55 oed yn aros rhwng gofyn am asesiad o'u hanghenion tan fod yr asesiad yn cael ei gwblhau. O'r 12 hynny a oedd yn gallu darparu'r wybodaeth, roedd wyth ohonynt hefyd yn gallu darparu data am ba mor hir y mae'n ei gymryd rhwng cwblhau'r asesiad a gweithredu pecyn gofal.

Y llynedd fe wnaethom adrodd eto bod rhai awdurdodau lleol yn newid eu systemau rheoli achosion, ac felly ni allent ddarparu'r wybodaeth. Eleni clywsom nad yw'r system a ffefrir yn genedlaethol (WCCIS) yn cael ei pharhau, felly bydd angen i rai awdurdodau newid eu systemau. Hefyd, clywsom nad yw systemau cofnodi yn gyfredol o ran y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu trefnu a'u darparu ac felly mae pryderon ynghylch cywirdeb.

## *Barn pobl hŷn*

Casglwyd yr adborth a'r wybodaeth gan bobl hŷn yn yr adroddiad hwn gan Gyngor Age Cymru, gwasanaethau cymorth eraill, digwyddiadau ymgysylltu a'n arolwg 'Beth sy'n bwysig i chi?.

Mae Cyngor Age Cymru yn cynnig cyngor a gwybodaeth i bobl hŷn, eu teuluoedd, ffrindiau, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol, ac mae pobl yn cysylltu â ni'n gyson i holi am ofal cymdeithasol, sy'n faes allweddol.

Mi wnaeth dros 1,300 o bobl hŷn ledled Cymru gyfan ymateb i'n harolwg blynyddol diweddaraf 'Beth sy'n Bwysig i Chi?'. Roedd yr arolwg yn dangos bod y rhai sydd angen gofal cymdeithasol yn delio ag ystod o faterion ar gyfradd uwch na phobl hŷn eraill wnaeth ymateb i'n harolwg. Mae cyfran y bobl hŷn a ddywedodd fod angen gofal cymdeithasol arnynt (16%) wedi gostwng o 20% o'r llynedd.

O'r rhain, roedd angen gofal ar fwy na thraean ohonyn nhw ar gyfer eu hunain ac roedd angen gofal ar ychydig llai na dwy ran o dair ar gyfer rhywun arall. Pan ofynnwyd iddynt a oeddent wedi cael yr help yr oedd ei angen arnynt gan ofal cymdeithasol, dywedodd ychydig dros hanner (51%) eu bod wedi cael help. Dywedodd llawer o'r bobl a ddywedodd 'eu bod wedi cael help' fod adnoddau wedi cael eu trefnu. O'r bobl a ddywedodd 'na', clywsom eu bod wedi gorfod llenwi nifer fawr o ffurflenni, a'u bod wedi cael anawsterau wrth ddod o hyd i wybodaeth.

I'r rhai a aeth drwy weithdrefnau codi tâl tecach, dywedodd rhai pobl ei bod yn anodd casglu eu tystiolaeth bersonol ynghylch cyllid. I rai, roedd y cymhlethdodau yn ymwneud â newidiadau wrth dalu am ofal sydd eisoes ar waith, er nad oedd hynny wedi cael ei esbonio'n ddigonol ac roedd hi'n anodd darganfod pam.

Roedd pobl hŷn sydd angen gofal cymdeithasol yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn profi iechyd meddwl gwael (40%) na phobl hŷn nad oedd angen gofal (22%).

Roeddynt yn fwy tebygol o ddweud fod ei iechyd meddwl wedi gwaethygu dros y flwyddyn ddiwethaf (33%) o'i gymharu â 17% o'r holl bobl hŷn eraill. Roedd pobl hŷn sydd angen gofal cymdeithasol hefyd yn llai tebygol o ddweud eu bod yn optimistaidd am y flwyddyn i ddod ac roeddent yn fwy tebygol o ddweud bod costau byw yn her.

Roedd y bobl oedd angen gofal cymdeithasol yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn delio â phrofedigaeth, bod unigrwydd yn her, bod trafnidiaeth yn her, a bod angen cwblhau gwaith atgyweirio ar eu cartref. Roeddent yn llawer mwy tebygol o ddweud nad oeddent yn optimistaidd am y flwyddyn i ddod.

Dywedodd nifer o bobl ei bod hi'n anodd i bobl hŷn ddod o hyd i'r ffordd gywir o gysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol. Roedd rhai pobl hŷn yn dweud eu bod wedi gadael negeseuon gyda gofal cymdeithasol ond nad oedd neb wedi eu hateb.

**"Mae'n amhosib siarad yn uniongyrchol gyda thimau gofal cymdeithasol. Rydw i wedi ceisio siarad â nhw sawl gwaith ond dydw i ddim yn llwyddo cael gafael ar neb." Ymateb i arolwg Age Cymru 'Beth sy'n Bwysig i Chi?', 2024.**

Gwnaeth nifer o'r bobl a ddywedodd eu bod nhw'n ei chael hi'n anodd cael gafael ar wasanaethau gofal ddweud fod capasiti'r staff yn broblem. Dywedodd rhai o'r bobl a oedd yn ei chael hi'n anodd fod angen gofal arnynt ar ôl gadael yr ysbyty, ond doedd dim gofal ar gael.

O blith bobl a ddywedodd ei fod yn hawdd cael gafael ar ofal, dywedodd rhai ei fod yn hawdd iddynt gael gofal oherwydd bod ganddynt gefnogaeth neu eiriolaeth i'w helpu. I eraill, roedd eu hanghenion yn gymharol syml felly mae'n haws i drefnu gofal cymdeithasol. Dywedodd eraill ei bod yn hawdd dod o hyd i'r rhif ffôn cywir i'w ffonio.

## *Gofalwyr di-dâl*

Mae 32% o bobl hŷn yn ein harolwg blynyddol yn darparu gofal di-dâl i o leiaf un person. O'r rhai sy'n darparu gofal di-dâl, mae mwy na hanner y gofalwyr di-dâl wedi cynyddu'r nifer o oriau y maent yn eu treulio'n gofalu yn ystod y 12 mis diwethaf, a dywedodd 54% fod gofalu wedi bod yn her yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cynnydd o 50% ers y llynedd.

**"Rydw i'n profi'r straen o fod yn ofalwr di-dâl, rydw i'n ceisio aros yn iach yn feddyliol ac yn gorfforol, ac rydw i'n gweithio'n llawn amser - mae'n her." Ymateb i arolwg Age Cymru 'Beth sy'n Bwysig i Chi?', 2024.**

Clywsom gan ofalwyr di-dâl sydd wedi gorfod rhoi'r gorau i weithio oherwydd eu cyfrifoldebau gofalu.

**"Rydw i'n gofalu am ddau riant â dementia; mae wedi bod yn anodd gofalu am fy iechyd meddwl. Mae yna ddiffyg cefnogaeth gan awdurdod lleol hyd nes y bydd argyfwng. Rydw i'n gorfod brwydro dros bopeth yn gyson, rydw i wedi gorfod rhoi'r gorau i weithio er mwyn cynnal fy iechyd meddwl fy hun a sicrhau bod fy rhieni yn derbyn gofal. Rydw i wedi peryglu fy sefydlogrwydd ariannol fy hun yn y dyfodol." Ymateb i arolwg Age Cymru 'Beth sy'n Bwysig i Chi?', 2024.**

Dywedodd llai nag 20% o ofalwyr di-dâl eu bod wedi cyrchu neu geisio cael gafael ar ofal cymdeithasol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar gyfer rhywun arall. O blith y bobl hyn, dywedodd llai na hanner (48%) eu bod wedi cael yr help yr oedd ei angen arnynt.

## *Oedi wrth i bobl aros am asesiadau*

**"Bu farw fy mam o ddementia. Ceisiais gael cymorth gofal cymdeithasol (help i'w golchi hi ac ati) am nifer o flynyddoedd. Y diwrnod y bu farw daeth dau berson i'w gweld a'i golchi. Bu farw hi tra bod hyn yn digwydd. Roedd ei dyddiau olaf yn llawn anrhefn, ac mewn sawl ffordd yn gywilyddus. Bu'n rhaid i fenyw naw deg oed ddioddef y system er mwyn derbyn gofal, ond ni chafodd ei hanghenion eu diwallu. Mae'n gadael blas sur iawn." Ymateb i arolwg Age Cymru 'Beth sy'n Bwysig i Chi?', 2024.**

**Tabl: Amser a gymerir i asesu – Cymhariaeth 2 flynedd**

| Cyfnod o amser | Cyfansymiau a chanrannau 2021-2022 | Cyfansymiau a chanrannau 2022-2023 |
|---|---|---|
| **0-30 diwrnod** | 16298<br>74.36% | 15186<br>76.28% |
| **31-60 diwrnod** | 2216<br>10.11% | 1911<br>9.6% |
| **61-90 diwrnod** | 1179<br>5.38% | 1072<br>5.39% |
| **91-120 diwrnod** | 787<br>3.59% | 732<br>3.68% |
| **121-150 diwrnod** | 377<br>1.72% | 340<br>1.71% |
| **151-180 diwrnod** | 280<br>1.28% | 204<br>1.02% |
| **181-210 diwrnod** | 197<br>0.9% | 119<br>0.6% |
| **211-240 diwrnod** | 129<br>0.59% | 78<br>0.39% |
| **241-270 diwrnod** | 87<br>0.4% | 74<br>0.37% |
| **271 - 300 diwrnod** | 67<br>0.31% | 53<br>0.27% |
| **301-330 diwrnod** | 55<br>0.25% | 38<br>0.19% |
| **331 - 360 diwrnod** | 50<br>0.23% | 36<br>0.18% |
| **361 - 390 diwrnod** | 30<br>0.14% | 21<br>0.11% |
| **391+ diwrnod** | 166<br>0.76% | 43<br>0.22% |
| **CYFANSYMIAU** | **21918** | **19907** |

**Gostyngodd nifer y ceisiadau am ofal yn 2022/2023 o 9% ac mae cyfran uwch o anghenion pobl hŷn yn cael eu hasesu'n gyflymach nag yr adroddwyd gennym y llynedd.**

Roedd cyfran y bobl hŷn a aseswyd o fewn 30 diwrnod wedi iddyn nhw ofyn am asesiad yn amrywio o 100% mewn un sir i ychydig dros 20% mewn sir arall. Mae prosesau asesu'n amrywio o sir i sir, felly mae cymharu ardaloedd gwahanol gan ddefnyddio'r data yn unig yn cuddio gwahaniaethau o ran dulliau.  Fel y trafodwyd yn hwyrach yn yr adroddiad hwn, clywsom gan rai arweinwyr gofal cymdeithasol ynghylch sut mae newidiadau mewn llwybrau gofal yn caniatáu iddynt sicrhau mai'r bobl sydd angen gofal cymdeithasol yw'r bobl sy'n cael eu hasesu'n llawn, ac mae'r bobl sydd angen cefnogaeth wahanol yn cael eu cyfeirio at y lleoedd cywir er mwyn sicrhau nad ydyn nhw'n gorfod aros.

Erbyn hyn mae gan lawer o awdurdodau lleol systemau ar waith lle mae timau llai arbenigol yn prosesu ceisiadau syml am gyngor a chymorth.  Mae hyn yn sicrhau nad yw'r bobl sydd â lefelau is o anghenion yn cael eu gwthio i gefn y ciw tra bod anghenion gofal brys yn cael sylw.

Gostyngodd nifer y pecynnau gofal a ddyrannwyd o 21,918 yn 2021/2022 i 19,907 yn 2022/23. Nododd tri awdurdod lleol a wnaeth ddarparu data eu bod wedi gweld cynnydd yn nifer y bobl hŷn a aseswyd. Roedd gan dri awdurdod lleol tua'r un lefel â'r llynedd.

Eleni, clywsom gan rai awdurdodau lleol a wnaeth nodi nad yw'r newidiadau maen nhw wedi'u gwneud yn cael eu cynrychioli gan ystadegau gan fod iechyd y rhai sy'n troi at wasanaethau gofal cymdeithasol wedi gwaethygu ers cyn y pandemig.

Mae canran y bobl hŷn a aseswyd o fewn 30 diwrnod wedi iddynt ofyn am asesiad wedi cynyddu ers 2021/22 ac mae llai o bobl yn aros cyhyd am gymaint o amser am asesiad.

**O blith yr awdurdodau lleol wnaeth ymateb i'r cwestiwn hwn, y cyfnod hiraf wnaeth unrhyw un aros oedd 639 diwrnod.**

Er nad oes llawer o bobl yn aros mor hir â hyn, mae yna ostyngiad mawr wedi bod.

Cynyddodd y nifer o bobl hŷn a fu'n gofyn am help bron i 13% yn 2022-2023 o'i gymharu â phrif flwyddyn y pandemig yn 2020-2021.  Gofynnodd 5% yn fwy o bobl am help yn 2022-2023 o'i gymharu â'r flwyddyn cyn y pandemig.

Roedd canran y bobl hŷn a gafodd eu hasesu o fewn 30 diwrnod wedi iddynt wneud cais am help yn 22/23 wedi cynyddu o'i gymharu â 21/22, ond mae'r ffigwr yn dal yn is na'r flwyddyn cyn y pandemig (91%).

Eleni cynhaliwyd llai o asesiadau o anghenion gofal cymdeithasol pobl hŷn. Cafodd cyfran ychydig yn uwch o bobl asesiad o fewn 30 diwrnod ar ôl iddynt wneud cais. Mae hyn yn dal i fod yn is na'r gyfran yn ystod y flwyddyn cyn y pandemig ond mae'n welliant calonogol.

Mae'r tabl uchod yn cymharu holl ddata cymharol yr awdurdod lleol, ond wrth wneud hynny mae'n cuddio'r gwahaniaethau unigol rhwng ardaloedd. Roedd trafodaethau gydag awdurdodau lleol eleni yn dangos na all data syml sy'n archwilio cyfnod o aros gasglu gwybodaeth am lefelau cynyddol o alw, a'r gwaith ychwanegol sydd angen cwblhau er mwyn ymateb i'r galw.

Mae'r pwysau a oedd gynt yn wynebu gwasanaethau yn ystod y gaeaf yn her drwy gydol y flwyddyn erbyn hyn.  Esboniodd awdurdodau lleol eu bod nhw'n ceisio gwella profiadau pobl hŷn sy'n ceisio mynychu'r gwasanaethau gofal cymdeithasol.  Mae yna sicrwydd llwyr y bydd y

pwysau sy'n eu hwynebu o ganlyniad i boblogaeth sy'n heneiddio yn golygu bod yn rhaid iddyn nhw wneud newidiadau nawr neu bydd y system gofal cymdeithasol ledled Cymru gyfan yn mynd i'r wal.

Y llynedd clywsom nad oedd asesiadau wyneb yn wyneb wedi dychwelyd i'r un lefelau â chyn y pandemig. Eleni fe wnaeth awdurdodau lleol ddisgrifio eu hymdrechion i sicrhau bod y bobl sydd angen asesiad wyneb yn wyneb yn ei dderbyn.

Fodd bynnag, mewn rhai mannau mae hyn wedi arwain at newidiadau i'r pwynt cyswllt cyntaf yn yr awdurdod lleol sy'n golygu mwy o frysbennu cyn i berson hŷn gael siarad â rhywun sy'n rhan o'r tîm gofal cymdeithasol. Mae'r cyfnod o aros sy'n wynebu rhywun sydd wedi ffonio i ofyn am help uniongyrchol wrth y gwasanaethau gofal cymdeithasol wedi lleihau. Mae hyn yn golygu bod adnoddau eraill y gwasanaeth gofal cymdeithasol yn medru cael eu defnyddio gan bobl eraill. Ond mae yna bryderon o hyd nad yw pobl sy'n chwilio am ymateb cyflym yn medru siarad â rhywun o'r gwasanaeth gofal cymdeithasol yn hawdd.

## *Oedi wrth i bobl aros am becynnau gofal*

**Cynyddodd cyfran y bobl hŷn a oedd wedi derbyn rhywfaint o'u pecynnau gofal o fewn 30 diwrnod o gael eu hasesu, a'r bobl a oedd wedi derbyn eu holl becynnau gofal o fewn 30 diwrnod o gael eu hasesu yn 2022/23.**

Disgrifiodd llawer o bobl hŷn a wnaeth ymateb i'n harolwg yn 2024 eu hanawsterau a'r effaith o fethu trefnu gofal. Dywedodd anwyliaid a gofalwyr di-dâl pa mor anodd yw hi i gael gofal mewn argyfwng a pha mor anodd y gall fod i egluro'r effaith y mae gofalu yn ei gael ar deuluoedd wrth iddynt siarad â gweithiwr proffesiynol o ganolfan gyswllt. Weithiau gall ymddangos fel petai teulu'n ymdopi'n dda, neu nad oes unrhyw berygl uniongyrchol.

### Profiadau

**Ffoniodd dyn yn ei 50au Cyngor Age Cymru yn gofyn beth oedd angen iddo ddweud wrth y gwasanaethau cymdeithasol er mwyn gallu cael y gofal sydd ei angen ar ei fam a'i dad. Ei dad yw prif ofalwr ei fam; roedd ganddi salwch difrifol a phroblemau iechyd wedi iddi gwympo nifer o weithiau. Roedd ein galwr yn byw mewn rhan arall o Gymru ac mae ef a'i deulu hefyd yn darparu gofal o bell i aelod hŷn arall o'r teulu.**

**Roedd ei fam wedi bod yn yr ysbyty am ddwy lawdriniaeth, ac roedd hi'n gwella wrth i'w dad ofalu amdani. Yna bu ei dad yn sâl a chafodd ei dderbyn i'r ysbyty am lawdriniaeth frys a bu yn yr ysbyty am bythefnos. Dywedodd y meddyg teulu wrth ei dad y byddai gofal yn cael ei drefnu ar gyfer ei fam tra roedd yntau yn yr ysbyty, a gwnaeth y meddyg teulu atgyfeiriad at y gwasanaethau cymdeithasol.**

**Bu'n rhaid i'm galwr gymryd amser i ffwrdd o'r gwaith pan aeth ei dad i'r ysbyty er mwyn gofalu am ei fam tra bod trefniadau gofal yn cael eu cynllunio. Ni wnaeth glywed dim gan y gwasanaethau cymdeithasol ar ôl deuddydd, felly ceisiodd gysylltu â nhw. Ni lwyddodd siarad â neb erbyn diwedd y diwrnod gwaith felly anfonodd e-byst. Ni chafodd ei e-byst eu darllen erbyn iddo ffonio eto ar y diwrnod canlynol. Gan nad oedd modd trefnu gofal yn ddigon cyflym bu'n rhaid iddo gymryd pythefnos i ffwrdd o'r gwaith a theithio ar draws Cymru bron bob dydd er mwyn darparu'r help yr oedd ei angen ar ei fam.**

**Tabl: Cymhariaeth dwy flynedd – amser a gymerir i ddarparu gofal i bobl 55+ oed ar ôl eu hasesu.**

| | 21/22 | 22/23 |
|---|---|---|
| 0-30 diwrnod | 3523<br>81.3% | 3403<br>83.6% |
| 31-60 diwrnod | 294<br>6.8% | 196<br>4.8% |
| 61-90 diwrnod | 166<br>3.8% | 128<br>3.1% |
| 91-120 diwrnod | 90<br>2.1% | 86<br>2.1% |
| 121-150 diwrnod | 52<br>1.2% | 57<br>1.4% |
| 151-180 diwrnod | 44<br>1% | 38<br>0.9% |
| 181-210 diwrnod | 27<br>0.6% | 40<br>1% |
| 211-240 diwrnod | 22<br>0.5% | 27<br>0.7% |
| 241-270 diwrnod | 21<br>0.5% | 21<br>0.5% |
| 271 - 300 diwrnod | 13<br>0.3% | 18<br>0.4% |
| 301-330 diwrnod | 15<br>0.4% | 13<br>0.3% |
| 331 - 360 diwrnod | 16<br>0.4% | 10<br>0.3% |
| 361 - 390 diwrnod | 12<br>0.3% | 8<br>0.2% |
| 391+ diwrnod | 36<br>0.8% | 27<br>0.7% |
| CYFANSWM | **4331** | **4072** |

Gostyngodd nifer y pecynnau gofal a ddyrannwyd 6% yn 22/23 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae cyfran y pecynnau gofal a ddyrannwyd o fewn 30 diwrnod wedi cynyddu.

Yn ddieithriad, dywedodd arweinwyr gofal cymdeithasol bod anghenion y rhai sy'n gofyn am ofal yn fwy cymhleth nag mewn blynyddoedd blaenorol ac mae'n cymryd amser i drefnu'r gofal sydd ei angen arnynt. Mae gan y bobl hŷn sy'n aros am becynnau gofal cymdeithasol yn y tabl uchod ystod o anghenion, yn cynnwys anghenion gofal cartref lefel isel, a phroblemau yn gysylltiedig â dod o hyd i'r gofal preswyl cywir.

**“Gofynnais am Asesiad Gofalwyr er mwyn i mi gael seibiant ond dydyn nhw ddim wedi dod o hyd i le iddo.” Ymateb i arolwg Age Cymru ‘Beth sy’n Bwysig i Chi?’ 2024.**

Eleni dywedodd arweinwyr gofal cymdeithasol nad oeddent bellach yn cael eu gorfodi i leoli pobl hŷn sy’n agored i niwed mewn lleoliadau gofal preswyl dros dro oherwydd na allent ddod o hyd i ofal cartref i’w cadw’n ddiogel yn eu cartrefi eu hunain. Yn ystod blynyddoedd blaenorol, roedd cyllid gwely ‘Step Down’ ar gael i helpu pobl a oedd yn gadael yr ysbyty. Nid oedd yr arian ar gael eleni, ond clywsom nad oedd cymaint o alw.

Clywsom am yr effaith roedd cau cartrefi gofal yn ei gael, a’r effaith ar bobl a oedd yn gorfod chwilio am rywle arall i fyw. Yn benodol, pan oedd y cartrefi gofal sy’n darparu gofal nyrsio yn cau roedd hi’n anoddach gwneud trefniadau amgen addas ac fel arfer mae’n golygu bod yn rhaid i deuluoedd deithio ymhellach i fynd i weld eu hanwyliaid. Mae’r galw am ofal nyrsio yn cynyddu a byddai colli cartrefi preswyl sy’n cynnig gwasanaethau nyrsio yn y dyfodol yn anodd iawn.

**“Aeth misoedd heibio cyn i Mam gael gofal, ac mae’r gofal mae hi’n ei dderbyn o safon wael. Rydyn ni wrthi’n ceisio newid y cwmni sy’n darparu gofal.” Ymateb arolwg Age Cymru ‘Beth sy’n Bwysig i Chi?’ 2024.**



## *Mesurau gwella awdurdodau lleol*

Dywedodd llawer o awdurdodau lleol trefol bod y farchnad gofal cartref wedi gwella ers y llynedd. Ar gyfer siroedd mwy gwledig, mae recriwtio yn parhau i fod yn broblem. Mae hyn yn arbennig o wir mewn ardaloedd sy'n boblogaidd ymhlith pobl sy'n ymddeol. Gyda chyfran uwch o bobl hŷn, a gyda phobl iau yn gadael i fyw mewn mannau eraill, clywsom fod recriwtio yn anoddach. Mae rhai siroedd wedi cyflwyno cyfradd uwch er mwyn talu darparwyr gofal cartref am alwadau i leoliadau mwy gwledig. Mae rhai wedi cynyddu'r gyfradd gyffredinol maen nhw'n ei thalu.

Mae un awdurdod lleol wedi cyflwyno fframwaith comisiynu newydd sy'n caniatáu talu cyfradd uwch (yn amodol ar feini prawf) mewn ardaloedd mwy gwledig sy'n cyflymu'r broses o gomisiynu pecyn gofal. Mae eu prosesau go gyfer a chofrestru darparwyr gwasanaeth newydd yn golygu y gellir eu cyflwyno'n gyflym ar y rhestr darparwyr cymeradwy. Mae tri darparwr newydd wedi cofrestru ac wedi dechrau darparu pecynnau gofal yn ddiweddar.

Rhoddir amser i ddarpar ddarparwyr fynegi diddordeb mewn pecyn, ond nid ydynt yn dewis y darparwr cyntaf yn awtomatig er tegwch i asiantaethau llai ac i sicrhau bod y darparwr yn addas ar gyfer y person hŷn sydd angen gofal. Cyflwynwyd y system ym mis Gorffennaf 2023, ac o fis Medi 2023 i Ebrill 2024 roedd y rhestr aros am becyn gofal cartref wedi haneru. Dywedon nhw eu bod wedi gweld gostyngiad yn nifer y pecynnau sy'n cymryd amser hir i gael eu dewis gan eu darparwyr gyda'r newidiadau y maent wedi bod yn eu gwneud dros nifer o flynyddoedd.

Mae awdurdod lleol arall yn defnyddio cynlluniau gofal sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, lle mae darparwyr yn penderfynu gyda'r unigolion sut y cyflawnir y canlyniadau. Caiff darparwyr eu talu mewn blociau o ofal a gwaith mewn meysydd penodol. Mae hyn yn helpu i'w recriwtio a'u cadw gan fod ganddynt well sicrwydd o gontractau. Ers cyflwyno'r system hon mae nifer y pecynnau gofal heb eu brocera wedi lleihau.

Dywedodd eraill, yn ogystal â chynyddu'r gyfradd a dalwyd ar gyfer ardaloedd gwledig, eu bod wedi cyflwyno panel adolygu cymheiriaid ble mae'r trydydd sector yn gofyn cwestiynau mewn adolygiadau cymheiriaid gyda gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr cymorth gofal. Mae hyn wedi gwella dealltwriaeth ac mae'n helpu i wella'r diwylliant o ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig.

Mae un awdurdod lleol yn treialu taliadau parhaus i ddarparwyr gofal cartref pan fydd rhywun yn mynd i'r ysbyty. Yn flaenorol, ni chafodd darparwyr eu talu tra bod unigolion yn yr ysbyty, fel bod yr awdurdod yn ceisio cynnal parhad gofal ar eu cyfer. Maen nhw hefyd yn rhwystro pobl rhag prynu bloc o sesiynau  yn yr ardaloedd maen nhw wedi cael trafferth dod o hyd i ofal.

## *Cyfathrebu*

**"Bob tro y ceisiais gael mynediad at ofal cymdeithasol, cefais fy nghyfeirio tuag at fannau eraill cyn dod yn ôl at y bobl gyntaf y cysylltais â nhw" Ymatebwyr i arolwg Age Cymru 'Beth sy'n Bwysig i Chi?' 2024.**

Rydym yn parhau i glywed gan bobl hŷn sy'n ei chael hi'n anodd cael gwybodaeth a chyngor amserol neu gywir gan y gwasanaethau cymdeithasol. Mae cael y wybodaeth gywir y tro cyntaf yn lleihau'r rhwystrau i bobl hŷn gael gafael ar yr help sydd ei angen arnynt.

**Profiadau:**

**Cysylltodd dau alwr gwahanol â Chyngor Age Cymru. Roedden nhw'n dod o'r un awdurdod lleol, ac roedd y ddau wedi cysylltu â'r gwasanaethau cymdeithasol am eu cymorth gyda gofal cymdeithasol. Dywedodd gweithiwr gyda'r gwasanaeth cymdeithasol y byddai'n rhaid i'r galwr dalu £120 yr wythnos pe bai angen gofal arnynt gartref. Nid oedd unrhyw asesiad wedi cael ei gwblhau ar y pryd. Mae'r cap presennol ar gyfer gofal gartref yng Nghymru wedi'i osod ar £100 yr wythnos ond mae'n amodol ar brawf modd i benderfynu ar allu'r unigolyn i dalu na fyddai'n achosi caledi ariannol gormodol. Daeth ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar gynnydd posib i ben yr wythnos honno, ond roedd hyn yn llawer rhy gynnar i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud ynghylch cynyddu'r cap.**

**Roedd y galwyr yn poeni am sut y gallent fforddio talu hyn. Rhannodd Gyngor Age Cymru wybodaeth am godi tâl tecach a chyfyngiadau cyfredol ar yr hyn y gellir ei dalu er mwyn iddynt fynd yn ôl at eu hawdurdod lleol gyda'r wybodaeth berthnasol.**

Yn ein trafodaethau gydag arweinwyr gofal cymdeithasol, gwnaethom ganolbwyntio ar ba wybodaeth a chymorth sydd ar gael, gan gynnwys sut mae codi tâl gofal cymdeithasol yn cael ei gyfathrebu, a pha mor gyflym y mae cais cychwynnol am wybodaeth, cyngor a chymorth yn cyrraedd y lle iawn.

Soniodd arweinwyr gofal cymdeithasol am wahanol drefniadau ar draws Cymru. Clywsom am ymdrechion i uwchsgilio staff mewn rolau cyswllt cyntaf mewn gwahanol ffyrdd i sicrhau bod y wybodaeth gywir yn cael ei darparu.

Mae gan un awdurdod lleol bwynt cyswllt gofal cymdeithasol penodol lle mae Swyddogion Cyswllt yn cael eu hyfforddi ar ystod eang o gymorth y gallai fod ei angen ar bobl. Mae ganddynt swyddogion sy'n ymweld â phobl, sy'n gallu cynnig cyngor ar hawlio hawliau ariannol a threfnu adnoddau lefel isel. Mae hyn yn rhyddhau amser i asesu anghenion y rhai sydd angen mwy o gefnogaeth.

Mewn maes arall yn ogystal â'u gofal cymdeithasol Un Man Cyswllt, mae ganddynt wasanaeth gwybodaeth a chyngor trydydd sector y maent yn ei gomisiynu i ddelio â'r rhai nad oes angen ymateb gofal cymdeithasol arnynt. Mae gan awdurdod lleol arall rif cyswllt cyffredinol sy'n cael ei rannu gyda phob preswylydd yn yr ardal. Atebir galwadau i'r rhif hwnnw gan unigolyn sy'n nodi gwybodaeth, sy'n ysgrifennu'r wybodaeth berthnasol i lawr ac yn trosglwyddo'r wybodaeth i'w gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth. Dywedon nhw eu bod wedi canoli hyn er mwyn gwella cysondeb eu hymateb.

Dywedodd un awdurdod lleol fod eu gwasanaeth gwybodaeth a chyngor yn un cyffredinol ar hyn o bryd. Byddai'n well ganddynt gael gwybodaeth a chyngor penodol i'r gwasanaethau cymdeithasol oherwydd byddai hyn yn sicrhau bod ganddynt wybodaeth fanwl, a sicrhau nad ydyn nhw'n colli pobl o'r cychwyn cyntaf.

# 5. Mynd i’r afael â’r problemau

Yn 2023 roedd y rhan fwyaf o adrannau gofal cymdeithasol yn wynebu heriau tebyg o ran recriwtio, cau cartrefi gofal a lefelau uwch o alw yn dilyn y pandemig. Flwyddyn yn ddiweddarach, dywedodd llawer o arweinwyr gofal cymdeithasol fod problemau yn ymwneud a recriwtio wedi lleihau, ond roedd llawer yn wynebu heriau o ran uwchsgilio staff mwy newydd, llai profiadol, sydd angen adnoddau ychwanegol. Fel y soniwyd yn gynharach, mae rhai gwahaniaethau rhwng ardaloedd gwledig a threfol o ran y gallu i recriwtio pobl i weithio yn y maes gofal cartref.

Roedd yn amlwg wrth siarad ag un ar ddeg o arweinwyr gofal cymdeithasol fod eu hadnoddau a’r ffyrdd y cânt eu cyflunio yn lleihau’r ôl-groniad wedi’r pandemig, ond bydd angen cymryd camau pellach er mwyn ateb y galw yn y dyfodol. Dywedodd un arweinydd gofal cymdeithasol:

**“Does dim mwy o arian. Weithiau, nid yw’r arian sydd gennym yn ddigon. Mae’n ddarlun anodd felly mae angen i ni fod yn glir iawn beth yw’r flaenoriaeth o ran cyllid.”**

## *Cynyddu gwytnwch cymunedol – micro-fentrau, gofal lefel isel a gwasanaethau ar ffiniau gofal*

Y llynedd, clywsom sut roedd rhai awdurdodau lleol yn ehangu microfentrau a oedd yn helpu i ddarparu lefelau is o ofal yn y gymuned. I rai pobl hŷn, gallant fod yn ddefnyddiol wrth iddynt geisio gadael yr ysbyty’n ddiogel. Roedd llawer o’r microfentrau hyn mewn lleoliadau gwledig, ond roedd rhai mewn ardaloedd mwy trefol. Eleni clywsom am fwy o lefydd sydd wedi cael eu datblygu yn ddiweddar.

Mae un awdurdod lleol wedi ymgorffori pum canolfan fenter micro ar draws y sir sy’n cael eu harwain gan sefydliadau’r trydydd sector. Mae yna fenter arall sy’n cynnal nifer o sefydliadau gwahanol, rhai sy’n darparu gofal uniongyrchol ac eraill sy’n llai ymwthiol. Mae’r rhain yn helpu pobl i drosglwyddo o’r ysbyty i’r cartref.

Mewn un awdurdod maent wedi comisiynu gwasanaeth cymorth cartref nad oes angen asesiad gan y gwasanaethau cymdeithasol ac mae am ddim. Mae staff yn mynd i bentrefi lle mae angen gofal, a darperir rhif ffôn er mwyn i bobl gysylltu â nhw i ofyn am help. Mae hwn yn gefnogaeth lefel isel ac mae eisoes wedi’i gordanysgrifio.

Mae un ardal yn edrych ar brosiect hyb tair blynedd sy’n seiliedig ar ardal i gydleoli timau trydydd sector ac amlddisgyblaethol a fydd yn ei gwneud yn haws i bobl siarad â’r bobl gywir yn gyflym.

Mae gan eraill ficrofentrau ar waith, ond maent yn tyfu’n arafach na’r disgwyl. Mae pryder, er y gallant gymryd y pwysau oddi ar ofal cymdeithasol yn y tymor hir, na fyddant yn diwallu anghenion lefel uwch.

Dywedodd un awdurdod lleol fod ganddynt lai o wasanaethau gofal na’r angen yn eu hardal. Ar hyn o bryd maen nhw’n ariannu gwasanaeth sydd wedi ei leoli ym mhen blaen adrannau damweiniau ac achosion brys i geisio sicrhau bod pethau ar waith erbyn bod rhywun yn gadael yr ysbyty. Mae’r galw am ofal gwirioneddol wedi cynyddu, ond mae angen cymorth gofal gwerthfawr sy’n helpu pobl i ymgartrefu ar ôl gadael yr ysbyty.

## *Sut mae awdurdodau lleol yn lleihau rhestrau aros.*

Er bod recriwtio wedi gwella ers y llynedd, roedd arweinwyr gofal cymdeithasol yn dal i ddweud wrthym am fylchau mewn staffio. Clywsom fod y defnydd o weithwyr asiantaeth mewn gofal cymdeithasol wedi lleihau ers y llynedd. Dywedodd sawl un am eu cynlluniau 'tyfu eich hun' o ran recriwtio a chadw staff, a'u bod yn gobeithio y byddant yn gwella sefydlogrwydd dros amser.

Clywsom eto sut mae rolau 'aseswr dibynadwy' yn cael eu cyflwyno i helpu i gael help yn gynharach, er nad yw rhai o'r datblygiadau hyn wedi gweithio yn ôl y gobaith ac mae pethau eraill yn cael eu rhoi ar brawf.

**"Roedd Dad angen cymhorthion hygyrchedd. Roedd yn gallu cael cymorth angenrheidiol yn gyflym ond roedd y broses o gael mynediad yn fiwrocrataidd iawn." Age Cymru, Beth sy'n bwysig i chi? Ymatebydd yr arolwg, 2024.**

Soniodd llawer o'r awdurdodau lleol am y newidiadau yr oeddent yn eu cynllunio neu eisoes wedi'u gweithredu ar gyfer gwybodaeth, cyngor, cymorth a llwybrau gofal. Pan ddefnyddir pwyntiau brysbennu canolog, clywsom fod ffurflenni a ddefnyddir gan swyddogion cyswllt yn cael eu hadolygu i leihau'r ymholiadau y mae angen eu cyfeirio at rannau eraill o'r awdurdod lleol neu wasanaethau'r trydydd sector. Roedd newid y cwestiynau mewn un maes yn golygu gwneud awgrymiadau ychwanegol i leihau achosion lle nad yw galwadau'n cael eu cyfeirio at ofal cymdeithasol sydd angen ymateb ganddynt. Mae maes arall yn adolygu eu swyddogaethau gwaith cymdeithasol ac yn edrych ar symud i system tair haen gyda chanolbwynt ymyrraeth ac atal cynharach a fydd yn cynyddu cyflymder yr ymatebion i geisiadau am gymorth.

Mae un awdurdod lleol yn defnyddio cwmni masnachu sy'n rheoli'r holl gysylltiadau a'r swyddogaeth gwybodaeth a chyngor. Maent wedi datblygu eu llwybr gofal brys i ddod â'r holl asiantaethau ynghyd fel y gallant ddarparu'r ymateb sydd ei angen. Gyda chynnydd yn y galw am wybodaeth, cyngor a chymorth, roeddent yn ei chael hi'n anodd mynd drwy'r ôl-groniad ac maen nhw wedi comisiynu adolygiad o'r dechrau i'r diwedd o'u llwybr gwybodaeth, cyngor a chymorth. Mae ganddynt uwch weithiwr cymdeithasol yn eu gwasanaeth IAA i adeiladu gwybodaeth a phrofiad y tîm a helpu i gyfeirio pobl i'r mannau cywir.

Mae gan ardal arall fodel gweithredu newydd sydd wedi'i gynllunio i ddarparu ymateb cymunedol gwell. Mae eu staff cyswllt, gwasanaethau tymor byr ac adnoddau i gyd yn eistedd gyda'i gilydd fel eu bod yn medru delio â phobl yn effeithiol pan mae angen mwy nag un gwasanaeth.

Clywsom gan fwy o awdurdodau lleol eleni sydd naill ai wedi newid eu llwybrau gofal a strwythurau eu tîm neu sydd wrthi'n gwneud hyn. Clywsom dro ar ôl tro sut mae ymdrechion wedi cynyddu er mwyn rhoi mynediad cyflymach i bobl hŷn a gofalwyr at gymorth ymyrraeth gynharach, gyda'r bwriad o ryddhau amser o fewn timau gofal cymdeithasol i ganolbwyntio ar y rhai sydd angen cymorth tymor hir gan ofal cymdeithasol a gwneud mwy o welliannau i'r gwasanaeth. Roedd y newidiadau yn digwydd ar frys o fewn rhai awdurdodau lleol wrth i'r galw am ofal gynyddu ac maent yn ceisio gwneud newidiadau er mwyn ateb gofynion y dyfodol.

Dywedodd awdurdodau lleol eu bod nhw'n edrych ar gynlluniau tymor hir i leihau'r angen am gymorth gofal cymdeithasol. Dywedodd rhai eu bod nhw'n newid y ffordd maen nhw'n

gweithredu, gyda rhai yn rhannu'n dri maes gofal - cymorth cynnar ac ymyrraeth; Gofal tymor byr a gofal hirdymor. Clywsom fod darparu gofal tymor byr yn y lle cyntaf, yn eu cynorthwyo i sicrhau bod yr holl opsiynau ar gyfer cymorth cynnar, adsefydlu a chymorth arall yn cael eu rhoi ar brawf yn gyntaf. Mae un awdurdod lleol wedi adolygu ei fodel gweithredu ac yn gwneud newidiadau er mwyn caniatáu mynediad haws at adnoddau. Mae hyn yn golygu nad oes angen i bobl fynd drwy'r broses asesu lawn.

## *Cefnogaeth i ofalwyr di-dâl*

**"Mae'n deimlad ofnadwy pan fyddwch chi'n gwneud Asesiad Gofalwyr ar ôl 12 mlynedd, ond does dim unman ar gael i mi gael wythnos o seibiant." Ymateb i arolwg Age Cymru Beth sy'n Bwysig i Chi 2024.**

Mae gofalwyr di-dâl yn chwarae rhan hanfodol, yn economaidd ac yn gymdeithasol. Mae dwywaith cymaint o ofalwyr anffurfiol, di-dâl â staff cyflogedig sy'n gweithio yn y systemau iechyd a gofal cymdeithasol cyfunol.   Y gofalwyr hyn, yn hytrach na gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n darparu'r rhan fwyaf o'r gofal i'r rhai sydd ei angen. Yn syml, ni allai'r systemau iechyd a gofal cymdeithasol ymdopi hebddynt. Mae gofalwyr di-dâl yng Nghymru a Lloegr yn cyfrannu £445 miliwn i'r economi bob dydd. Mae gwerth gofal di-dâl yn gyfwerth ag ail GIG yng Nghymru a Lloegr.

Y llynedd clywsom fod rhai meysydd yn canolbwyntio ar well help i ofalwyr di-dâl a gwelsom ddarlun cymysg o ddatblygiadau. Eleni, roeddem yn poeni wrth glywed bod cynlluniau sawl awdurdod lleol yn wynebu heriau. Roedd cyllid ar gyfer cymorth gofalwyr di-dâl yn broblem oherwydd ei fod yn aml yn gyllid tymor byr a chyda defnyddiau penodol ynghlwm, megis amodau i ganolbwyntio ar fentrau mwy newydd.

Dywedodd un awdurdod lleol fod y cynlluniau oedd ganddyn nhw llynedd i ddatblygu gwasanaethau gofalwyr wedi arafu oherwydd bod rhywun ar lefel uwch wedi penderfynu nad dyma'r amser cywir. O ganlyniad, maent bellach yn gorfod ailadrodd ymgysylltiad â gofalwyr i wirio nad yw eu blaenoriaethau wedi newid ers yr ymarfer ymgysylltu diwethaf. Dywedon nhw eu bod yn clywed o flwyddyn i flwyddyn bod gofalwyr yn gofyn am yr un pethau, ond ni ellir cytuno ar gynlluniau heb wirio gwaith ymgysylltu blaenorol. Mae hyn yn cymryd amser gwerthfawr i ofalwyr, yn ogystal â staff o fewn yr awdurdod lleol.

Mae gan rai awdurdodau lleol drefniadau parhaus a sefydledig gydag elusennau gofalwyr lleol sy'n gweithio'n dda i gefnogi gofalwyr di-dâl. Mae gan un awdurdod lleol bedwar hyrwyddwr gofalwyr ar draws eu timau gofal cymdeithasol - un wrth dderbyn gofalwr, un yn yr ysbyty a dau yn eu tîm tymor hir. Dywedon nhw eu bod yn cael amser a lle i ddatblygu mentrau sy'n canolbwyntio ar anghenion gofalwyr di-dâl.

Dywedodd cyngor arall fod gofalwyr di-dâl yn cael asesiad os oes angen, ond mae'r rhan fwyaf yn teimlo bod eu hanghenion yn cael eu diwallu sicrhau bod eu hanwyliaid yn derbyn gofal.  Mae eu hadolygiad allanol ar wasanaethau seibiant a gwasanaethau dydd yn ystyried anghenion trafnidiaeth wledig. Mae ganddynt gontract newydd ar waith ar gyfer gofalwyr di-dâl sy'n cael ei ddarparu trwy gonsortiwm tair sir yn y trydydd sector. Dywedon nhw fod hyn yn mynd yn dda ac yn cyd-fynd yn well â'r hyn y dywedodd gofalwyr. Gall y prosiect atgyfeirio gofalwyr di-dâl at wasanaethau cymdeithasol os oes angen.

Roedd cyllid cynaliadwy, tymor hir yn thema barhaus. Mae gan un ganolfan ar gyfer gofalwyr sy'n cael ei hariannu drwy amrywiaeth o botiau arian tymor byr sy'n cael eu cynnig yn

rhanbarthol. Maen nhw'n defnyddio cyllid Pontio'r Bwlch ar hyn o bryd, ond nid ydyn nhw'n gwybod o flwyddyn i flwyddyn beth fydd lefel yr arian a sut y gellir ei ddefnyddio. Ar hyn o bryd mae un cyngor arall yn ail-gontractio ar gyfer eu gwasanaeth gofalwyr gyda sefydliad sy'n gallu cydlynu gwasanaethau seibiannau byr. Fodd bynnag, dywedon nhw nad yw cyllid gofalwyr 'byth yn rheolaidd' fel eu bod yn gwneud eu gorau glas gyda'u hadnoddau eu hunain.

Dywedodd un arweinydd gofal cymdeithasol, nad oes llawer o bwrpas gwneud cais am gyllid ar gyfer 'rhywbeth newydd' pan mai'r hyn maen nhw'n ei glywed gan ofalwyr di-dâl yw bod angen mwy o'r un peth arnyn nhw.

"Mae angen i ni wrando ar yr hyn maen nhw ei eisiau," medden nhw.

## *Taliadau uniongyrchol*

Yn ein hadroddiadau blaenorol, rydym wedi manylu ar sut mae awdurdodau lleol wedi bod yn edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio taliadau uniongyrchol fel opsiwn i bobl gael y gofal sydd ei angen arnynt. Gall taliadau uniongyrchol ddarparu hyblygrwydd i ddiwallu anghenion gofal ac o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (2014) Cymru dylid eu cynnig yn weithredol.

Yn 2022, canfu adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar daliadau uniongyrchol ar gyfer gofal cymdeithasol i oedolion fod ychydig dros draean o oedolion yn derbyn taliad uniongyrchol. O'r rhain, roedd 36.1% yn bobl hŷn. Roedd pobl hŷn yn cyfrif am dros 75% o oedolion sy'n derbyn gwasanaethau. Fe wnaeth hefyd ddarganfod gwahaniaethau rhwng y taliadau uniongyrchol am becynnau gofal cyfartalog rhwng ardaloedd awdurdodau lleol.

Yn ystod y pandemig, cynyddodd rhai awdurdodau lleol faint o daliadau uniongyrchol yr oeddent yn eu cynnig. Gallai hyn fod mewn amgylchiadau lle na allai'r awdurdodau lleol gael gofal gan eu darparwr cymeradwy, neu pan oedd y person sydd angen gofal yn fwy agored i'r feirws a doedden nhw ddim eisiau derbyn gofal gan rywun oedd yn mynd i mewn ac allan o nifer o gartrefi arall. Ers hynny, mae trefniadau taliadau uniongyrchol wedi cael eu hadolygu mewn rhai rhannau o Gymru ac mae gwaith arfaethedig yn mynd mlaen i ailasesu pecynnau talu uniongyrchol a drefnwyd yn ystod y pandemig i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion pobl hŷn.

**Profiadau:**

**Cawson ni alwad gan ddyn a oedd yn derbyn taliadau uniongyrchol gan ei awdurdod lleol tuag at ofal ei wraig. Roedden nhw wedi bod yn derbyn taliadau uniongyrchol am gwpl o flynyddoedd erbyn i'r archwiliad cyntaf ddigwydd. Canolbwyntiodd yr archwiliad ar sut roedd y taliadau uniongyrchol yn gweithio ac mae'r canllawiau'n dweud y dylai hyn ddigwydd o fewn chwe mis ar ôl i daliad uniongyrchol ddechrau.**

**Mae e a'i wraig yn talu cynorthwywyr personol yn fwy nag y mae cyfradd eu hawdurdod lleol yn ei ganiatáu, dyma'r unig ffordd i sicrhau eu bod yn medru cyflogi Cynorthwywyr Personol sydd â diddordeb yn y gwaith. Dywedodd yr archwilydd y dylen nhw fod yn talu'r gyfradd arferol ac yn rhoi unrhyw arian sy'n weddill mewn 'cronfa wrth gefn'. Ond pan wnaeth y dyn siarad â'r timau taliadau uniongyrchol yn y gorffennol, dywedodd y tîm y gallai dalu unrhyw gyfradd i gynorthwywyr personol gan fod y cyllid yno er mwyn darparu hyblygrwydd. Nid oes cyfeiriad at sicrhau bod yna gronfa wrth gefn yn y canllawiau taliadau uniongyrchol.**

**Maen nhw nawr yn poeni y gallai'r arian blynyddol maen nhw wedi'i dderbyn gael ei gymryd i ffwrdd. Mae wedi cymryd cyngor Cyngor Age Cymru, ac wedi ysgrifennu at yr awdurdod lleol.**

**Dywedodd ei fod ef a'i wraig yn ffafrio'r opsiwn o daliadau uniongyrchol gan ei fod yn gymaint mwy hyblyg na phecyn gofal y gallai'r awdurdod lleol ei gynnig iddynt. Mae'n caniatáu iddynt drefnu'r gofal sydd ei angen arnynt ar adegau, yn hytrach na'r opsiynau cyfyngedig gan gwmnïau gofal a gomisiynir gan awdurdodau lleol. Pan oedd yr awdurdod lleol yn asesu'r anghenion gofal seibiant, gallai gymryd tuag wythnos i drefnu gofalwyr, neu gallai pobl fod yn aros am chwe mis, yn dibynnu ar argaeledd gofalwyr mewn gwahanol ardaloedd o fewn yr awdurdod lleol. Roedd taliadau uniongyrchol yn ddewis llawer gwell.**

Dywedodd un awdurdod lleol eu bod wedi rhoi ffocws allweddol ar sicrhau mai'r gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol yw'r hyn sydd ei angen ar bobl. Maent wedi bod yn datblygu gwasanaeth cymorth Taliad Uniongyrchol sy'n rheoli'r broses gyfan o'r cychwyn cyntaf, ac yn cynnwys cymorth ar gyflogaeth, a recriwtio Cynorthwywyr Personol. Mae hefyd yn darparu bancio rheoledig i'r rhai nad ydynt yn gallu ei wneud eu hunain. Mae gan y rheolwr tîm a gyflogir brofiad o weithio mewn canolfan waith ac mae wedi galluogi cynnydd sylweddol mewn recriwtio ar gyfer DPS.

Mae meysydd eraill hefyd yn canolbwyntio ar ddatblygiadau mewn Taliadau Uniongyrchol. Mae un yn gwneud mwy o ddefnydd o Daliadau Uniongyrchol ar gyfer anghenion gofal pobl hŷn fel rhan o'r symudiad i'r defnydd cynyddol o ficro-fentrau. Dywedon nhw fod taliadau uniongyrchol yn opsiwn mwy deniadol i Gynorthwywyr Personol sydd am weithio yn eu cymunedau lleol. Mae un arall yn datblygu gwasanaeth cymorth mewnol i helpu pobl i reoli eu Taliadau Uniongyrchol ac fel ffordd o wella dewis i'r rhai sydd angen gofal cymdeithasol. Dywedon nhw fod Taliadau Uniongyrchol yn aml yn gwneud mwy nag y bydd gwasanaeth gofal cartref traddodiadol yn ei wneud, felly nid yw'n amnewidiad uniongyrchol.

Dywedodd un cyngor fod ganddynt eu tîm taliadau uniongyrchol eu hunain a'u bod yn mynd drwy'r broses o adolygu'r holl daliadau uniongyrchol. Eleni maen nhw'n edrych ar sut y gallan nhw ddarparu cefnogaeth i bobl sy'n ymwneud â swyddi hysbysebu a'r weinyddiaeth.



## Canolfannau dydd yn newid

Y llynedd clywsom fod newidiadau yn y ddarpariaeth draddodiadol o ganolfannau dydd ar y gweill. Roedd nifer o ganolfannau wedi cau yn ystod y pandemig ac heb ailagor.

Mae un awdurdod lleol yn darparu gwasanaethau drwy ganolfannau canolog. Mae'r gwasanaethau ar gael i ofalwyr di-dâl ac maen nhw'n credu bod y system yn gweithio'n well na darpariaeth canolfannau dydd traddodiadol. Maent hefyd yn treialu gwasanaeth sy'n caniatáu i ofalwyr di-dâl fynd allan. Yn ogystal, mae ganddynt weithgor sy'n edrych ar gysylltiadau bysiau â gwasanaethau cymunedol ac yn hyrwyddo unrhyw welliannau sydd eu hangen. Maen nhw'n dibynnu'n helaeth ar drafnidiaeth gymunedol, sy'n cael ei ordanysgrifio.

Mewn un ardal, nid yw'r awdurdod lleol wedi ailagor eu darpariaeth gwasanaeth dydd i bobl hŷn ers y pandemig ac wedi dweud eu bod yn darparu gwasanaethau mewn ffyrdd eraill. Maent wedi cwblhau adolygiad sylweddol o wasanaethau seibiant a gwasanaethau dydd a byddant yn symud ymlaen gyda'r cynllun gweithredu o adolygiad a gomisiynwyd yn allanol. Y cam nesaf yw edrych ar sut y gallant gyflawni argymhellion yr adolygiad gan ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd drwy'r pandemig ar gyrchu'r hyn sydd ei angen yn eu cymunedau eu hunain. Bydd trafnidiaeth yn cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith cynllunio ar gyfer hyn oherwydd natur wledig y sir.

Mae un awdurdod lleol yn dal i gynnig canolfannau dydd, ond maen nhw'n canolbwyntio ar gynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r tîm gwasanaethau dydd yn edrych ar atgyfeiriadau ar gyfer yr hyn a fyddai'n cael ei gynnig yn flaenorol gan y tîm gwasanaethau dydd, sy'n dod i adnabod rhywun dros gyfnod o wythnosau er mwyn dod o hyd i ffyrdd o'u cysylltu â'u cymuned.

Mae ardal arall yn gorfod cau canolfan sy'n cael ei defnyddio ar gyfer pobl hŷn a phobl ag anableddau dysgu oherwydd cost atgyweiriadau i'r hen adeilad. Bydd pobl hŷn yn cael cynnig cyfleoedd diwrnod arall. Bydd staff yn cael eu hyfforddi fel gweithwyr allgymorth fel bod pobl yn gallu cael mynediad at weithgareddau cymunedol.

## Gadael yr ysbyty

**"Cefais fy rhyddhau o'r ysbyty yn ddiweddar ac mae wedi bod yn anodd cael help. Er bod gen i becyn gofal, doedd dim byd wedi'i roi ar waith cyn i mi gael fy rhyddhau i fyw ar fy mhen fy hun. Roeddwn i'n cael trafferth ar fy mhen fy hun; roeddwn i'n cwympo ac yn brifo fy hun wrth geisio ymdopi ar fy mhen fy hun heb unrhyw help. Ymateb i arolwg Age Cymru 'Beth sy'n Bwysig i Chi', 2024.**

Mae oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty yn lleihau canlyniadau cadarnhaol i bobl hŷn ac yn achosi lefelau gormodol o straen i bawb dan sylw. Mae aros yn yr ysbyty yn hirach na'r angen yn golygu bod cyflwr iechyd pobl yn dirywio. Mae ein hymgysylltiad â phobl hŷn yn dangos bod cleifion o fewn y byrddau iechyd gwahanol yng Nghymru yn cael eu rhyddhau heb fod unrhyw un yn ystyried eu hamgylchiadau ehangach. Mae pryderon yn parhau bod pobl yn cael eu rhyddhau o'r Ysbyty heb help, gan arwain at ddirywiad cyflym ymhlith pobl hŷn, a byddant yn gorfod mynd yn ôl i'r ysbyty mewn cyflwr gwaeth.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ofal cymdeithasol a'r hyn a ddywedodd arweinwyr gofal cymdeithasol am drefniadau, ond mae'n bwysig deall bod byrddau iechyd hefyd yn gyfrifol am ryddhau cleifion hŷn yn ddiogel gyda'r gallu i gyflawni canlyniadau cadarnhaol i

bobl hŷn. Mae pa mor gynnar a pha mor glir y mae adrannau gofal cymdeithasol yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i drefnu gofal yn allweddol er mwyn sicrhau bod pobl hŷn sydd angen gofal cymdeithasol yn dod allan o'r ysbyty ar yr adeg cywir, ac yn y lle cywir sy'n gyfleus iddyn nhw a'u hanwyliaid.

Mae trafodaethau gydag awdurdodau lleol dros y tair blynedd diwethaf wedi dangos sut mae oedi wedi cynyddu mewn rhai ardaloedd. Eleni, clywsom er nad oedd 'pwysau'r gaeaf' wedi bod cynddrwg ag yr oedd rhai awdurdodau lleol yn ei ddisgwyl, pobl hŷn ag anghenion gofal mwy cymhleth yw'r rhai sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio wrth adael yr ysbyty. Roedd yr awdurdodau hynny a ddywedodd bod pobl wedi gorfod aros cyn dod allan o'r ysbyty yn fwy tebygol o fod yn ardaloedd lle mae recriwtio gofal cartref yn parhau i fod yn broblem.

Dywedodd y rhan fwyaf o arweinwyr gofal cymdeithasol fod ganddynt berthnasoedd da gyda gwasanaethau iechyd wrth rhyddhau cleifion o'r ysbyty, ond nid yw hyn bob amser yn golygu eu bod yn cael y wybodaeth gywir gan staff. Cafodd gweithdrefnau 'rhyddhau i adfer ac asesu' eu cyflwyno yn 2018 er mwyn gwella'r profiad o ryddhau pobl o'r ysbyty, ond clywsom fod y prosesau yn dal i gael eu hymgorffori yn 2024.

Er mwyn rhyddhau rhywun o'r ysbyty mewn ffordd ddiogel, mae'n hanfodol bod yr holl wybodaeth am anghenion y person hŷn yn gyfredol ac yn cael ei darparu mewn atgyfeiriadau gofal cymdeithasol. Clywsom am enghreifftiau lle'r oedd gwybodaeth atgyfeirio yn rhy hen, ac roedd yr anghenion gofal a nodwyd yn llawer uwch na'r hyn yr oedd ei angen ar y person hŷn. O ganlyniad, mae amser staff gofal cymdeithasol yn cael ei wastraffu wrth iddynt drefnu pecynnau gofal anghywir; mae'n rhaid iddyn nhw fynd ati unwaith eto i chwilio am wybodaeth addas ar gyfer anghenion gwirioneddol y person hŷn. Clywsom am enghreifftiau lle derbyniwyd galwadau blin gan deuluoedd yn gofyn beth oedd yn digwydd i'w hanwyliaid. Doedd dim cyfeiriad wedi digwydd ond roedd staff yn yr ysbytai wedi dweud wrth y teulu bod y gwasanaethau cymdeithasol yn trefnu gofal.

I rai pobl hŷn sydd angen gofal cymdeithasol gofal tymor hir, gall taliadau fod yn syndod, a gall y drefn codi tâl gofal preswyl fod yn gymhleth. Mae pobl yn gorfod aros yn yr ysbyty tra bod trafodaethau'n parhau am bwy fydd yn ariannu'r gofal unwaith y bydd y person hŷn yn gadael yr ysbyty. Fel y dywedodd un arweinydd gofal cymdeithasol:

**"Mae'n loteri - a ydych chi'n cael help neu beidio? Mae pobl yn cael eu gadael i aros, heb wasanaeth, tra bod llawer o gyfarfodydd yn gofyn am bethau eraill cyn bod penderfyniad yn cael ei wneud. Mae'n anobeithiol."**

Dywedodd un awdurdod lleol fod ganddynt drefniadau rhyddhau o'r ysbyty effeithiol gyda hwb rhyddhau integredig sy'n cael ei gynnal yn y brif ysbyty, ac nad yw'r mwyafrif o atgyfeiriadau ar gyfer rhyddhau 'yn cyffwrdd â gweithiwr cymdeithasol.' Mae gofal cartref yn dod o'r Tîm Adnoddau Cymunedol neu'r gwasanaeth ailalluogi. Mae'r gyfran fach o'r rhai sydd angen cyfranogiad gweithwyr cymdeithasol yn aml oherwydd ystyriaethau galluedd meddyliol, y rhai sydd angen cartref gofal parhaol a lle mae problemau teuluol.

Dywedodd cyngor arall fod oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty yn eu hardal wedi lleihau ac mae oedi bellach oherwydd cymhlethdod sefyllfaoedd unigol. Dywedon nhw fod y sefyllfa wedi gwella'n fawr oherwydd bod pobl yn cael eu rhyddhau i'w cartref yn hytrach na gofal preswyl tymor byr. Maent wedi ailfodelu eu system hailalluogi a'u system gofal cartref gan greu un system i sicrhau bod ailalluogi yn cael ei gynnig i bawb a allai elwa ohono, yn hytrach na'r llwybrau gofal blaenorol lle'r oedd pobl yn mynd ar goll.

Mewn un ardal, mae'r awdurdod lleol wedi cyflogi aseswyr dibynadwy i helpu i ryddhau cleifion o'r ysbyty. Gwnaethom ddarganfod fod angen gwasanaethau sy'n cefnogi pobl o'r ysbyty i'w cartref, a byddai ymateb ar ffiniau gofal yn helpu gyda hyn.

Yn ein trafodaeth gydag arweinwyr gofal cymdeithasol, aeth trafodaethau derbyn i'r ysbyty law yn llaw â thrafodaethau ar atal derbyniadau i'r ysbyty yn y lle cyntaf, gwasanaethau ailalluogi ac atal. Mae hyn yn cysylltu gyda gwasanaethau ar ffiniau gofal a drafodwyd yn gynharach. Soniodd rhai awdurdodau lleol am ddatblygiadau tymor hir y maent yn gobeithio eu defnyddio i leihau'r galw am ofal a chymorth yn y dyfodol.

Mae un cyngor yn edrych ar ddewisiadau byw annibynnol hirdymor gwell ar gyfer pobl hŷn. Maen nhw wedi cynnal adolygiad ac mae llai yn dewis gofal preswyl. Mae cynlluniau'n cael eu datblygu ar gyfer dau opsiwn cymunedol newydd gyda nyrsio cymunedol a fydd yn gwasanaethu'r gymuned leol yn ogystal â'r rhai sydd angen gofal nyrsio. Dylai hyblygrwydd y model ddarparu cyfres o wasanaethau sydd eu hangen ar bobl hŷn.

Dywedodd awdurdod lleol arall eu bod yn edrych ar gynlluniau newydd yn y tymor hir. Maent yn edrych ar gymysgedd o ofal preswyl, gofal ychwanegol, a rhai gwelyau sy'n galluogi pobl i gamu i fyny ac i lawr. Fe wnaethon nhw sefydlu uned gofal canolradd 14 gwely yn 2021 sydd wedi bod yn effeithiol. Mae tua 87% o'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn adennill eu hannibyniaeth. Dywedodd yr awdurdod mai eu ffocws yw ceisio atal pobl rhag mynd i'r ysbyty, ac os oes rhaid iddyn nhw fynd yno, maen nhw'n ceisio eu cael nhw allan cyn gynted â phosibl.

## Trefniadau codi tâl ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol

Mae Cyngor Age Cymru yn aml yn derbyn ymholiadau am dalu am ofal ac ymholiadau am drefniadau talu. Mae'r ymholiadau'n cynnwys; ffioedd atodol cartref gofal, trefniadau ar gyfer gofal preifat, ceisiadau Grant Cyfleusterau i'r Anabl, talu am a gosod adnoddau cymunedol, larymau personol a thechnoleg gynorthwyol arall. Mae nifer y galwadau a dderbyniwn yn flynyddol am dalu am ofal preswyl wedi mwy na dyblu ers 2019.

O'r rhai sydd angen gofal cymdeithasol, dywedodd llawer o ymatebwyr ei bod yn anodd deall trefniadau talu.

**"Cefais fy nghamarwain i gredu na fyddai unrhyw ffioedd am 6 wythnos nes i mi gael asesiad a chytuno ar gynllun gofal tymor hir a byddai'r trefniadau codi tâl yn cael eu hesbonio i mi. Ni ddigwyddodd dim o hynny a chefais anfoneb a oedd yn fy nghyhuddo o bethau gwahanol. Roeddwn i'n anghytuno ac roedd yn rhaid i mi godi cwyn." Ymateb i arolwg Age Cymru Beth sy'n Bwysig i Chi 2024**

Er gwaethaf rheoliadau codi tâl tecach, mae costau ychwanegol uchel yn cael eu cyfeirio at anwyliaid. Mae'r gwahanol lwybrau gofal sy'n wynebu pobl hŷn, a'r lefelau gwahanol o wybodaeth a ddarperir ar godi tâl am ofal yn achosi dryswch a biliau annisgwyl.

Os cynigir dewis o leoliadau i'r unigolyn ac mae eu hoff leoliad yn costio mwy na ffi arferol yr awdurdod lleol, y teulu neu anwyliaid eraill (ond nid yr unigolyn sydd angen gofal) sy'n derbyn ffi wythnosol 'atodol'. Mae ffioedd atodol wythnosol yn amrywio ond gallant fod yn ormodol, gan achosi i gronfeydd ariannol sydd gan deulu a ffrindiau ddiflannu. Mae taliadau atodol yn amrywio ond mae'n ymddangos eu bod yn cynyddu.

**Profiadau:**

**Ffoniodd unigolyn Cyngor Age Cymru i drafod trefniadau codi tâl ar gyfer gofal preswyl ei fam. Mae ei fam yn colli ei chof, ac wedi asesiad nodwyd bod yn rhaid iddi gael pedair galwad gofalwr y dydd. Fodd bynnag, oherwydd ei bod hi'n colli ei chof, roedd hi'n poeni'n ofnadwy am ddieithriaid yn dod i mewn i'w chartref. Bu'n rhaid ffonio'r gwasanaeth brys a bu'n rhaid iddi fynd i'r ysbyty am bythefnos. Cytunodd y teulu a'r gwasanaethau cymdeithasol mai'r opsiwn gorau iddi oedd mynd i fyw mewn cartref gofal preswyl dros dro. Cynigiwyd dewis o bedwar cartref i'r teulu. Dywedodd ein galwr fod tri ohonynt o ansawdd gwael iawn ac roedd y teulu'n pryderu am ei lles pe bai'n rhaid iddi fynd yno. Roedd y lleoliad diwethaf gryn dipyn yn fwy costus na'r lleill a gynigir, ond cytunodd i dalu swm ychwanegol o'r gwahaniaeth rhwng yr hyn y byddai'r awdurdod lleol yn ei dalu a beth fyddai'r lleoliad dros dro yn ei godi fel mesur tymor byr. Roedd y ffi hon dros £100 yr wythnos.**

**Daeth yn amlwg bod ei fam yn hapusach ei byd yn aros lle'r oedd hi fel trefniant hirdymor, yna newidiodd hyn o drefniadau codi tâl tymor byr i godi tâl gofal preswyl tymor hir. Roedd cynilion ein galwr yn diflannu; roedd ei fam wedi setlo yn y cartref gofal, felly byddai parhau i dalu'n golygu taliadau ychwanegol. Gofynnodd ein galwr i'r gweithiwr cymdeithasol sut roedd hi'n bosibl codi tâl am hyn; roedd ei fam wedi cael ei hasesu drwy asesiad codi tâl tecach, a nodwyd nad oedd ganddi ddigon o incwm i dalu am unrhyw ofal preswyl. Atebodd y gweithiwr cymdeithasol y gallai'r teulu fforddio talu'r gwahaniaeth pe byddent am i'w mam aros yno.**

Yn yr enghraifft hon, nid yw'r taliadau ychwanegol y tu allan i ganllawiau statudol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, felly maen nhw'n cael eu caniatáu. Mae'n bosib bydd y taliadau hyn yn golygu bydd teuluoedd yn wynebu caledi ariannol.

Wedi i ni gyhoeddi ein hadroddiad yn 2023, roedd adborth y cyhoedd yn cynnwys achosion lle'r oedd pobl hŷn yn gorfod talu am ofal yn breifat tra roeddent yn aros am asesiad gan y gwasanaethau cymdeithasol. I rai, unwaith y byddai asesiad wedi'i gwblhau gan yr awdurdod lleol ar ôl i'r teulu ddod o hyd i ofal yn breifat, roedd y gofal a ddyrannwyd yn llai na'r gost yr oedd teuluoedd wedi bod yn ei thalu. Ni chafodd yr holl addasiadau a chostau eu hystyried yn yr asesiad megis prydau bwyd a gwasanaethau glanhau. O ganlyniad, gall teuluoedd fod yn talu'r uchafswm o £100 o ofal yn y cartref yn ogystal â dod o hyd i 'wasanaethau ar ffiniau gofal' ychwanegol am gost ychwanegol uchel.

## *Cyfathrebu am godi tâl*

Esboniodd arweinwyr gofal cymdeithasol y prosesau ar gyfer cyfathrebu trefniadau taliadau. Dywedodd sawl un eu bod nhw'n cadw'r adran ar godi tâl o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gyda nhw gan ei fod yn adran gymhleth. Mae gan ffurflenni asesu ariannol un awdurdod lleol fesurau diogelu sylfaenol ar bobl sengl a'r rhai y gallai eu hincwm fod ar y cyd, felly ni ddylai materion sy'n ymwneud â diystyru pensiwn ac ati ddigwydd. Os yw'r person wedi mynd i fyw mewn cartref gofal preswyl yn ddiweddar a'i fod yn adolygu ei incwm, os oes ganddo bensiwn preifat, mae rhan o'r asesiad yn holi a oes partner ganddynt er mwyn sicrhau bod y cyfraniadau sydd eu hangen yn gywir, er mwyn darganfod a oes diystyriad eiddo ac ystyried unrhyw ffactorau eraill i sicrhau bod pob rhan o'r broses yn cael ei chynnwys. Maen nhw'n adolygu'r gwaith papur ar hyn o bryd ac yn defnyddio taflenni ffeithiau Age Cymru ar godi tâl er mwyn sicrhau bod ganddyn nhw'r wybodaeth sydd ei hangen.

**"Mae chwilio am leoedd preswyl yn ogystal â gofal gartref wedi bod yn anodd i berthynas hŷn. Y farn oedd, gan fod gan yr unigolyn deulu, yna gallant dalu'r costau. Nid yw'r ysbytai hyd yn oed wedi rhoi'r 6 wythnos orfodol o ofal cartref ar waith, er bod hynny'n cael ei nodi yn eu polisïau. Does dim gofal iechyd preifat / gofal cymdeithasol wedi bod ar gael chwaith." Arolwg Age Cymru Beth sy'n Bwysig i Chi 2024**

Nododd un awdurdod lleol bod gofyn i bob cyngor gael panel Dyledion a Chodi Tâl fel mecanwaith i sicrhau bod y taliadau'n deg. Mae ganddynt un ar gyfer pob gwasanaeth unigol. Os ydynt yn gweld unrhyw gynnydd o ran pryderon, gallant edrych i weld beth yw'r problemau a sicrhau bod gwelliannau'n cael eu gwneud.  Dywedon nhw fod modd rhannu'r uchafswm o ran terfynau cyfalaf a gofal yn y cartref cyn i'r asesiad ariannol gael ei wneud. Mae'r tîm Cyllid hefyd yn derbyn galwadau gan staff sy'n ymweld i roi syniad i bobl hŷn o faint y maent yn debygol o dalu er mwyn i bobl fedru bod yn fwy parod erbyn i'r gofal gael ei drefnu.

Cyflwynodd yr un awdurdod lleol achos busnes canol blwyddyn i gynyddu'r swm a dalwyd am ofal preswyl gan eu bod mor anghyfforddus gyda'r gwahaniaeth yn yr hyn y gallent ei dalu o'i gymharu â pha gartrefi gofal oedd yn codi tâl. Fe wnaethon nhw gomisiynu ymgynghorwyr allanol i werthuso pris teg am ofal, felly roeddent yn gallu profi eu hachos busnes. Cawsant gymeradwyaeth i dalu hyd at £65 yn ychwanegol yr wythnos yn dibynnu ar y gost. Bydd teuluoedd yn derbyn arian yn ôl. Mae rhai lleoliadau preswyl yn dal i gostio mwy nag y gall pobl ei dalu, ond mae'r bwlch yn llawer llai nawr.

Pan fydd cyfnod o oedi cyn bod y gofal cywir ar waith, gall bobl hŷn orfod symud o ofal cymdeithasol tymor byr am ddim (chwe wythnos) i ofal hirdymor.  O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, mae'n wasanaeth y gellir codi tal amdano, yn amodol ar reoliadau Codi Tâl Tecach. Soniodd pob arweinydd gofal cymdeithasol am godi tâl, gan ddweud bod prosesau ar waith i sicrhau bod codi tâl yn cael ei esbonio - wrth asesu ac yn ystod yr ailasesiad chwe wythnos.

Er gwaethaf hyn, dywedodd ymatebwyr i'n harolwg blynyddol nad oeddent wedi cael esboniad am y broses o godi tâl ac rydym yn parhau i dderbyn galwadau yn gofyn am gymorth i ddeall y trefniadau. Rydym hefyd yn clywed gan Gyngor Age Cymru bod nifer o alwyr wedi cael eu cyhuddo ar gam.

**Profiadau:**

**Mi wnaeth unigolyn ffonio Cyngor Age Cymru i drafod sefyllfa anwylyn a oedd wedi mynd i fyw mewn cartref gofal dros dro. Newidiodd eu cyflwr ac roedden nhw'n gorfod byw yn y cartref gofal am gyfnod hirdymor. Dywedodd yr unigolyn nad oedd cyfathrebu digonol am sut y byddai ffioedd y cartref gofal yn cael eu talu. Bu farw'r anwylyn yn y cartref gofal, a derbyniodd y teulu anfoneb gyda swm chwe ffigwr. Mi wnaeth ein hymgynghorydd wirio'r ffigyrau, a darganfod nad oedd yr awdurdod lleol wedi diystyru'r pensiwn o 50%, nid oedden nhw wedi cyfrifo'r swm wythnosol gofynnol y mae'n rhaid ei adael ar ôl taliadau am 8 mis, ac roedden nhw wedi codi ffioedd atodol anghywir. Ar ôl gwneud y cywiriadau, daeth y cyfanswm sy'n ddyledus i lawr i swm pedwar ffigwr. Mi wnaeth y galwr gyflwyno cwyn i'r awdurdod lleol, ond roeddent yn ei chael hi'n anodd iawn datrys y sefyllfa.**



# 6. Prif alwadau gan arweinwyr Gofal Cymdeithasol

**"Mae hi'n sefyllfa 80/20 - mae 80% o'u hamser yn cael ei dreulio gartref ond mae 80% o'r arian yn cael ei wario mewn ysbytai acíwt. Oni bai bod gennym gyllid cynaliadwy hirdymor, ni allwn wneud newid rhyw lawer." Arweinydd Gofal Cymdeithasol 2024**

Gofynnom i arweinwyr gofal cymdeithasol beth fydden nhw'n gofyn amdano er mwyn gwella ansawdd gofal cymdeithasol i bobl hŷn a mynediad pobl hŷn at ofal cymdeithasol. Yn bennaf, eu prif gais oedd cael cyllid tymor hir a chynaliadwy er mwyn iddynt fedru gwneud newidiadau i ddiwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio yng Nghymru yn awr ac yn y dyfodol, er bod rhai meysydd eraill yn cael eu crybwyll hefyd.

**"Nid arian yw popeth, ond mae'n rhaid i arian gael ei ddyrannu'n fwy ystyrlon. Rydym yn treulio llawer o amser yn profi bod rhywbeth wedi gweithio."**

Trafodwyd cydraddoldeb rhwng rolau iechyd a gofal cymdeithasol yn aml. Dywedodd un arweinydd gofal cymdeithasol wrthym eu bod wedi gwneud ceisiadau am well tâl i weithwyr pan gyflwynwyd prosesau cofrestru ar gyfer gweithwyr gofal cartref.  Bydd recriwtio yn broblem gyson heb well tâl.

**"Ar ôl y pandemig roeddwn o'r farn y byddai gwerth gofalwyr yn cael ei gydnabod a bydden nhw'n cael y cyflog roedden nhw'n ei haeddu, ond dyw hynny ddim wedi digwydd - dim ond taliad untro. Fe'u bradychwyd, rwy'n credu mai nhw yw'r gweithlu sy'n cael eu tanbrisio waethaf yn y DU.  Mae cartrefi gofal yr un peth - rydych chi'n cael y gwasanaeth rydych chi'n talu amdano."**

Yn aml, trafodwyd dileu'r rhaniad a grëwyd rhwng trefniadau ariannu iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n aml yn gysylltiedig ag oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty mewn perthynas â Chyllid Gofal Iechyd Parhaus. Fel y dywedodd un arweinydd,

**"Ariannu yw brwydr waethaf y maes iechyd - os yw rhywun yn derbyn Gofal Iechyd Parhaus neu beidio, mae yna anghysondeb ac ansefydlogrwydd wrth ddehongli - mae'n gwastraffu amser pob gweithiwr proffesiynol. Mae uwchgyfeirio ym mhobman ond nid yw penderfyniadau lleol yn gyson yn genedlaethol. Nid yw problemau llawer o bobl yn cael eu datrys yn effeithiol felly maen nhw'n talu am rywbeth na ddylent fod yn talu amdano."**

Roedd y fenter 'Further Faster' yn enghraifft arall o arian yn diflannu.  Cyfeiriwyd at y fenter gan sawl arweinydd gofal cymdeithasol.  Clywsom i ddechrau bod hwn yn cael ei ystyried yn ddatblygiad cadarnhaol iawn a fyddai'n helpu i gynyddu adnoddau cymunedol a lleihau'r galw. Fodd bynnag, gostyngodd lefelau'r cyllid a oedd ar gael a dywedodd sawl arweinydd gofal cymdeithasol eu bod wedi gweithio'n galed i wneud cais am y cyllid hwn, a'u bod yn aflwyddiannus yn y pen draw. Clywsom sut y bu'n rhaid gwneud cais am gyllid drwy'r byrddau iechyd ac nid oedd llawer o'r arweinwyr gofal cymdeithasol wedi sicrhau unrhyw ran o'r cyllid hwn. Dywedodd un person:

**"Pam anfon fframwaith atom ac yna anwybyddu'r hyn rydyn ni am ei wneud? Bob tro mae arian yn cael ei daflu at y gwasanaeth iechyd, maen nhw'n anghofio am ofal cymdeithasol. Nid yw'n ffordd effeithiol o weithredu."**

# 7. Casgliadau

1. **Mae'r cynnydd yn y galw am ofal cymdeithasol yn dilyn y pandemig yn 2021 a 2022 wedi lleihau ac mae'n ymddangos bod ymdrechion awdurdodau lleol yn lleihau amseroedd aros. Fodd bynnag, mae oedi o ran mynediad at ofal cymdeithasol yn dal yn rhy hir.**
2. **Mae'r ymdrechion tuag at adfer gofal cymdeithasol wedi parhau, ond mae cymhlethdod cynyddol y galw a'r amcanestyniadau am boblogaeth yn y dyfodol yn golygu bod angen i bethau newid yn gyflymach.**
3. **Mae angen gwella ansawdd y cyfathrebu rhwng y gwasanaethau cymdeithasol a phobl hŷn a'u teuluoedd ar y pwynt cyswllt cyntaf ac wrth i bobl aros i gael eu hasesu neu i becynnau gofal gael eu gweithredu.**
4. **Mae angen i ymdrechion i wella'r gefnogaeth i ofalwyr di-dâl ddigwydd yn gyflymach.**
5. **Nid yw systemau casglu data yn dal i allu adrodd yn effeithiol am yr oedi o ran mynediad at ofal cymdeithasol.**
6. **Mae trefniadau cyllido tymor byr yn golygu bod gwasanaethau gofal a gwasanaethau cymorth lefel is yn parhau i fod mewn perygl.**
7. **Mae cymhlethdodau ynghylch codi tâl yn golygu y gallai rhai pobl hŷn fod yn talu mwy na'r swm a ganiateir drwy godi tâl tecach a all beryglu diogelwch ariannol teuluoedd.**
8. **Mae cyfathrebu gwael ynghylch rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn golygu bod pobl hŷn yn aros yn yr ysbyty yn hirach nag sydd raid.**
9. **Mae awdurdodau lleol yn darparu cefnogaeth fewnol gynyddol ar gyfer taliadau uniongyrchol a allai ganiatáu cynnydd yn nifer y bobl hŷn sy'n gweld taliadau uniongyrchol fel opsiwn mwy ffafriol.**

# 8. Argymhellion

Eleni clywsom am waith a wnaed ledled Cymru i fynd i'r afael â'r rhesymau sylfaenol a soniwyd amdanynt o fewn argymhellion adroddiad y llynedd. Mae llawer o argymhellion eleni yn debyg i'r llynedd pan nad yw pethau wedi newid yn ddigon cyflym. Mae rhai wedi'u haddasu yn seiliedig ar wybodaeth newydd.

## Argymhelliad 1

**Mae angen i Lywodraeth Cymru, ADSS Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru ac awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod mecanweithiau adrodd yn gallu dangos lle mae'r canlyniadau cadarnhaol, yn hytrach na chofnodi ac adrodd am allbynnau'n unig.**

Mewn adroddiadau blaenorol rydym wedi tynnu sylw at wahaniaethau o ran casglu data a gwahaniaethau mewn systemau a ffyrdd o gofnodi ledled Cymru. Mae methu â gallu adrodd yn hawdd ac yn gywir drwy'r gofyniad adrodd statudol presennol yn ogystal â'r adnoddau sydd eu hangen i symud o un system rheoli achos i'r llall yn rhwystro data a gwybodaeth gywir, ddibynadwy a defnyddiol ynghylch a yw gwasanaethau'n helpu pobl hŷn i gyflawni canlyniadau cadarnhaol.

## Argymhelliad 2

**Dylai awdurdodau lleol asesu a yw eu prosesau presennol ar gyfer darparu cyngor a gwybodaeth gychwynnol a mynediad parhaus at gyngor a gwybodaeth yn diwallu anghenion pobl hŷn. Mae angen i hyn gynnwys canolbwyntio ar ba mor dda y caiff gwybodaeth ei chyfathrebu a'i deall ynghylch codi tâl tecach.**

Mae'r argymhelliad hwn yn parhau i fod yr un fath â'r llynedd. Yn yr un modd a blynyddoedd blaenorol, mae ein hymgysylltiad parhaus â phobl hŷn ledled Cymru yn tynnu sylw at lawer o achosion lle nad yw pobl hŷn yn cael y wybodaeth gywir pan fyddant yn troi at ofal cymdeithasol am gymorth.

Mae ein ffocws cynyddol eleni ar dalu am ofal wedi tynnu sylw at achosion lle mae taliadau wedi'u cymhwyso'n anghywir, a lle mae pobl wedi derbyn biliau annisgwyl oherwydd bod trefniadau wedi newid o drefniadau gofal tymor byr i dymor hir ac nid yw'r cyfathrebu wedi bod yn effeithiol.

## Argymhelliad 3

**Dylai awdurdodau lleol roi ffocws ychwanegol ar yr unigolion hynny sydd ar hyn o bryd yn aros mwy na 30 diwrnod ar gyfer asesiad anghenion gofal neu cyn bod pecyn gofal ar waith.**

Bu'n rhaid i bron i chwarter (24%) y bobl hŷn aros mwy na 30 diwrnod am asesiad gofal a bu'n rhaid i 16% aros mwy na 30 diwrnod cyn bod gofal yn ei le. Eleni, clywsom fod rhywfaint o adnoddau a gyfeiriwyd tuag at wella'r sefyllfa wedi lleihau neu wedi cael ei ddileu. Nid yw'r cyfnodau o aros wedi gostwng, felly mae'r argymhelliad hwn yn aros yr un fath ag argymhelliad y blynyddoedd blaenorol.

## *Argymhelliad 4*

**Dylai awdurdodau lleol ddarparu cymorth rhagweithiol i'r rhai sy'n aros mwy na 30 diwrnod.**

Mae'r argymhelliad hwn yn aros yr un fath ag a ddisgrifir yn argymhelliad tri.

## *Argymhelliad 5*

**Mae angen i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, awdurdodau lleol a gwasanaethau'r trydydd sector weithio gyda'i gilydd i wella'r cymorth ymyrryd ac atal cynharach sydd ar gael i bobl hŷn.**

Mynegodd awdurdodau lleol y buom yn siarad â nhw eleni eu pryderon na fyddant yn gallu diwallu'r angen cynyddol rhagamcanol am ofal cymdeithasol. Clywsom hefyd bod pwysau adnoddau yn golygu y gall fod yn amhosibl cefnogi  gwasanaethau ymyrryd ac atal cynharach yn ogystal â gwneud newidiadau i ddiwallu anghenion sylfaenol. O ystyried y gostyngiad y gall ymyrraeth gynharach ei wneud i leihau'r galw yn y dyfodol, mae'n hanfodol bod cynllunio'n cynnwys y gofal cyfannol a ragwelir drwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

## *Argymhelliad 6*

**Dylai Llywodraeth Cymru, byrddau partneriaeth rhanbarthol, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol sicrhau bod cyllid y trydydd sector yn cael ei ddarparu ar sail gynaliadwy.**

Yn 2023 clywsom gan rai meysydd sut roeddent yn gobeithio y byddai newidiadau mewn trefniadau contract yn gwella gwasanaethau i bobl hŷn, er bod pryderon am eu gallu i ddarparu cyllid cynaliadwy i wasanaethau'r trydydd sector. Eleni clywsom nad oedd gan rai prosiectau a ariennir gan grant y trydydd sector unrhyw gynnydd neu fawr ddim o gynnydd ar gyfer 2024 er gwaethaf costau darparu gwasanaethau cynyddol.  Roedd rhai contractau a ariennir gan grant yn dod i ben. Clywsom hefyd, yn arbennig, ei fod yn anodd gwella'r cynnig cymorth i ofalwyr di-dâl heb gyllid cynaliadwy tymor hir.

## *Argymhelliad 7*

**Mae angen pwyslais ar ddysgu rhwng awdurdodau lleol a rhannu arfer da. Bydd hyn yn lleihau faint o waith y mae angen i awdurdodau lleol ei wneud a'u helpu i osgoi problemau y mae awdurdodau lleol eraill wedi'u hwynebu.**

Yn yr un modd a blynyddoedd blaenorol, cawsom adborth cadarnhaol gan arweinwyr gofal cymdeithasol drwy ein cyfarfodydd o ba mor ddefnyddiol yw clywed am ddatblygiadau a newidiadau mewn rhannau eraill o Gymru. Wrth i newidiadau barhau yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu trefnu a'u darparu, mae yna angen parhaus i sicrhau bod arferion da yn cael eu rhannu ledled Cymru.

## *Argymhelliad 8*

**Dylai Llywodraeth Cymru, byrddau partneriaeth rhanbarthol ac awdurdodau lleol sicrhau bod gofynion y Siarter ar gyfer Gofalwyr Di-dâl yn cael eu bodloni.**

Mae'r argymhelliad hwn yn parhau i fod yr un fath â'r llynedd. Mae'r cynnydd o 50% yng nghyfran y gofalwyr hŷn a ddywedodd fod gofal di-dâl yn her yn dangos faint mwy sydd angen ei wneud i gefnogi gofalwyr di-dâl yn eu rôl.



# Cyfeirnodau


i. ADSSS 2019 Modelau Ariannu Arloesol i Ddiwallu Anghenion Gofal CymdeithasolModelau Ariannu Arloesol i Ddiwallu Anghenion Gofal Cymdeithasol (adss.cymru)

ii. Wales Fiscal Analysis - The Future of Care in Wales: Resourcing social care for older adults, Cian Sion and Michael Trickey August 2020. They calculated 52,500 work in commissioned care and 12,000 are employed by local authorities specifically for older adults.

iii. House of Lords Select Committee, 14 Mawrth 2013

iv. https://www.carersuk.org/policy-and-research/key-facts-and-figures/ 1 Awst 2024

v. https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/Direct-payments-Eng.pdf

vi. Gwnaed newidiadau o fis Ebrill 2023 ar adrodd data ar oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty. Disodlodd data Llwybrau Gofal hyn ac mae bellach yn dadansoddi'n fanwl y rheswm dros oedi drwy lwybrau gofal ac mae ar gael yn: https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/NHS-Performance/pathway-of-care-delays/pathwayofcaredelays-by-reasonfordelay-date

# *Atodiad -*
# *Canllawiau codi tâl gofal cymdeithasol*

O dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014: Rhan 4 a 5 Cod Ymarfer, ni ellir codi tal o fwy na £100 yr wythnos ar bobl hŷn sy'n derbyn gofal cymdeithasol yn eu cartref eu hunain. Mae canllawiau statudol ynghylch codi tâl tecach yn nodi na ddylid gadael person gyda llai na Lwfans Isafswm Incwm. Os byddai'r tâl o £100 yn golygu bod gan yr unigolyn llai na'r Lwfans Isafswm Incwm, mae'n rhaid bod y tâl a godwyd yn golygu bod ganddyn nhw swm cyfan y Lwfans Isafswm Incwm ar ôl talu.  Ar hyn o bryd mae taliadau gofal gartref wedi'u capio ar £100, er bod ymgynghoriad am gynyddu'r taliadau wedi cau ym mis Mai 2024.

Mae trefniadau codi tâl ar gyfer gofal preswyl tymor byr (heb fod yn fwy nag 8 wythnos), fel preswylydd cartref gofal dros dro [annhebygol o fod yn fwy na 52 wythnos, neu i fod yn sylweddol fwy na 52 wythnos), a phreswylwyr parhaol (lle rhagwelir y byddant yn byw mewn cartref gofal am gyfnod amhenodol) yn wahanol.

Ar gyfer gofal preswyl tymor byr, codir tâl ar bobl hŷn fel petaent yn derbyn gofal gartref.

Ar gyfer preswylydd dros dro, gall awdurdodau lleol godi tâl fel pe bai am ofal preswyl hirdymor, ond gyda gwahaniaethau mewn perthynas â chyfalaf ac incwm. Wrth gyfrifo incwm y person, rhaid i'r awdurdod lleol ddiystyru 'costau cysylltiedig â thai y mae'n rhaid i'r preswylydd eu talu mewn perthynas â'u prif breswylfa.' Rhaid i'r awdurdod lleol hefyd anwybyddu gwerth eu cartref os ydynt yn bwriadu dychwelyd i fyw yno.

Ar gyfer gofal preswyl hirdymor, mae incwm a chyfalaf yn cael eu hystyried yn y prawf modd. Os oes gan berson hŷn gyfalaf a chynilion unigol sy'n fwy na £50,000 disgwylir iddynt dalu cost lawn eu gofal preswyl. Unwaith y bydd adnoddau unigolyn yn cael eu lleihau i £50,000 bydd yn gallu cael asesiad ariannol. Os oes gan berson hŷn asedau cyfalaf a chynilion llai na £50,000 bydd disgwyl iddynt gyfrannu at gost eu gofal preswyl o hyd ond yn gyfreithiol rhaid gadael Swm Isafswm Wythnosol (ar hyn o bryd £43.90) ar gyfer costau byw. Mae cymal 'diystyru eiddo 12 wythnos' sy'n golygu bod yn rhaid i awdurdodau lleol ddiystyru prif gyfalaf neu unig gartref y person yn yr asesiad ariannol am y 12 wythnos gyntaf os yw gwerth cyfalaf arall, heb werth yr eiddo, yn is na'r terfyn cyfalaf.

Os nad oes cyfalaf ar gael ar unwaith, gellir gwneud cais am daliadau gohiriedig. Os yw partner y person hŷn yn dal i fyw gartref, bydd y cartref yn gyffredinol yn cael ei ddiystyru, ac ni fydd yn cael ei gynnwys yn y prawf modd. Weithiau gellir diystyru'r eiddo mewn amgylchiadau penodol eraill. Os oes angen gofal preswyl ar y partner ymhen amser, neu mae'r partner yn marw, mae'n debygol bydd yr eiddo'n cael ei ystyried bryd hynny. Mae taliadau gohiriedig yn golygu, yn dilyn eu marwolaeth, y gellir cymryd y swm o'u hystâd. Caniateir i awdurdodau lleol godi llog ar y 'ddyled' hon, ond ni chaniateir iddynt godi mwy o log na chostau talu gohiriedig yr Awdurdod Lleol.  Gellir gwneud taliadau i'r awdurdod lleol yn gynharach e.e. os yw'r eiddo yn cael ei werthu ac mae'r arian ar gael. Yn yr achos hwn, byddai angen i'r awdurdod lleol ystyried hynny wrth asesu lefel y cyfalaf sydd ar ôl wrth dalu ffioedd parhaus.



Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig 1128436. Cwmni cyfyngedig drwy warant ac wedi cofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad cofrestredig y swyddfa Llawr Gwaelod, Tŷ Mariners, Llys Trident, Heol East Moors,Caerdydd CF24 5TD.
©2024 Age Cymru.